Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad Blynyddol & Chyfrifon

2015-2016

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Adran 1: Yr Adroddiad Perfformiad** | **4** |
| **1.1 Trosolwg** | **4** |
| Rhagair y Prif Arolygydd | 4 |
| Diben a gweithgareddau'r sefydliad | 6 |
| Materion a risgiau allweddol | 6 |
| Crynodeb o berfformiad | 7 |
| **1.2 Dadansoddi perfformiad** | **8** |
| Amcan Strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru | 9 |
| Amcan Strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru | 17 |
| Amcan Strategol 3: Meithrin gallu wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru | 22 |
| Egwyddor Cyflawni 1: Datblygu Estyn yn sefydliad 'gwerth gorau' a 'chyflogwr enghreifftiol' | 25 |
| Egwyddor Cyflawni 2: Cydweithio gydag arolygiaethau eraill i gefnogi gwelliant | 35 |
| **Adran 2: Yr Adroddiad Atebolrwydd** | **36** |
| **2.1 Adroddiad llywodraethu corfforaethol** | **36** |
| Adroddiad y Cyfarwyddwr | 36 |
| Y datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddogion Cyfrifyddu | 37 |
| Y datganiad llywodraethu | 38 |
| **2.2 Adroddiad ar gyflogau a staff** | **45** |
| **2.3 Adroddiad atebolrwydd ac archwilio** | **53** |
| Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Estyn | 53 |

**Adran 3: Datganiadau ariannol** **55**

3.1 Datganiad o wariant net cynhwysfawr 55
3.2 Datganiad o'r sefyllfa ariannol 56
3.3 Datganiad ar lifoedd arian 57
3.4 Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 58
3.5 Nodiadau i gyfrifon adnoddau adrannol 59

**Atodiad 1: Rhestr o acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn** **70**

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio'r cyfieithiad hwn ac nid yw'n derbyn cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a wnaed o'r fersiwn Saesneg.

# Adran 1: Yr Adroddiad Perfformiad

## 1.1 Trosolwg

### Rhagair y Prif Arolygydd



Eleni, sef fy mlwyddyn gyntaf fel Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, roedd fy ffocws ar adeiladu ar waith fy rhagflaenydd, Ann Keane, a ymddeolodd ar ddiwedd Mai 2015, a gwneud y gwaith sylfaenol a fydd yn dwyn yr arolygiaeth yn ei blaen.

Yn 2015-2016, cyflawnom ein hamserlen gylchol o arolygiadau craidd trylwyr ochr yn ochr â rhaglen sylweddol o fonitro 'dilynol' yn y darparwyr addysg hynny y canfuwyd yn ystod arolygiadau cychwynnol fod angen eu gwella.

Mae parch mawr i'n prosesau arolygu a gweithgarwch dilynol, ac maent wedi parhau i ddarparu atebolrwydd i'r cyhoedd a chynorthwyo gwelliant ar draws yr holl sectorau a arolygwn.

Yn gynnar yn y flwyddyn, dechreuom ar y broses o ymgynghori ar gynigion ar gyfer Fframwaith Arolygu Cyffredin diwygiedig a fydd yn cael ei roi ar waith o Fedi 2017. Mae'r ymateb gan randdeiliaid wedi bod yn gadarnhaol; ymgryfhaodd y prosiect i ddatblygu trefniadau arolygu newydd yn ystod y flwyddyn, ac mae'n cael ei ddwyn yn ei flaen yn 2016 gydag arolygiadau peilot wedi'u cynllunio ar gyfer tymor yr hydref.

Dros y flwyddyn, cyhoeddwyd 14 o arolygon thematig gennym ar destunau amrywiol fel y gofynnwyd i ni wneud yn y llythyr cylch gwaith blynyddol gan y Gweinidog Addysgu a Sgiliau. Ymhlith yr adroddiadau y dangosodd ymarferwyr ddiddordeb mawr ynddynt oedd yr adroddiadau ar Arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion a Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion. Mae ein gwefan newydd wedi gwella mynediad at yr adroddiadau hyn ac at wybodaeth arall, fel ein hastudiaethau achos arfer orau, y gall darparwyr addysg a hyfforddiant eu defnyddio fel meincnod ac i gefnogi'u cynnydd eu hunain.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ad-drefnu ein rhaglen waith i sicrhau bod adnoddau ar gael i gynorthwyo Llywodraeth Cymru wrth fynd ati i ddiwygio'r cwricwlwm yn sgil adolygiad Donaldson. Mae ein cyfraniad at grwpiau cwricwlwm, er enghraifft, Cymhwysedd Digidol, yn hyrwyddo cydnabod Estyn fel llais awdurdodol ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae canlyniadau Estyn o Arolwg Pobl blynyddol y Gwasanaeth Sifil yn 2015, yn unol â blynyddoedd blaenorol, yn dangos bod gennym weithlu ymgysylltiedig iawn. Trwy gydol y cyfnod o gyni parhaus gyda'r angen i 'wneud mwy gyda llai', rydym wedi cyflawni ystod o ffrydiau gwaith newydd yn ychwanegol at ein gwaith statudol craidd. Ni allwn fod wedi gwneud hyn heb ddiwydrwydd ac ymrwymiad ein staff.

Rwyf am ddiolch i bob un o’m cydweithwyr sydd wedi gweithio’n broffesiynol ac yn frwdfrydig trwy gydol y flwyddyn.

**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
a Swyddog Cyfrifyddu

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn yn adran 3 yr adroddiad hwn gan y Swyddog Cyfrifyddu i’w cyhoeddi ar **7 Gorffennaf 2016**

## Diben a gweithgareddau'r sefydliad

Estyn yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ein cenhadaeth yw cyflawni rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru. Gwnawn hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chynghori annibynnol o ansawdd uchel i Lywodraeth Cymru a dinasyddion Cymru.

Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ein hariannu ganddi (adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

Yn ychwanegol at staff gwasanaethau corfforaethol, cyflogwn Arolygwyr Ei Mawrhydi (AEM) ac ategwn ein gallu arolygu mewnol trwy gyflogi secondeion. Hefyd, rydym yn hyfforddi ac yn contractio gydag Arolygwyr Ychwanegol, arolygwyr cymheiriaid (sy'n gweithio mewn addysg a hyfforddiant ar hyn o bryd) ac enwebeion (sy'n gweithio fel cynrychiolydd y darparwr) i weithio fel rhan o dimau arolygu.

Yn ogystal, mae Estyn yn cyflogi Rheolwr Prosiect yr Arolygiaethau ar y Cyd gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) fel rhan o Arolygu Cymru, sef menter gydweithio rhwng y pedwar prif gorff arolygu, archwilio ac adolygu yng Nghymru.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-2016, cynhaliwyd yr holl arolygiadau o ysgolion yn uniongyrchol gan AEM neu Arolygwyr Ychwanegol a gyflogwyd yn uniongyrchol gan Estyn. Fe wnaeth nifer fach o Arolygwyr Ychwanegol gyflawni rhai agweddau ar waith arolwg a gwaith hyfforddi ar ran Estyn hefyd.

Mae tîm rheoli a staff gwasanaethau corfforaethol Estyn yn gweithio yn ein swyddfa yn Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd. Mae pob un o arolygwyr cyflogedig Estyn yn gweithio gartref. Mae strwythur sefydliadol Estyn ar gael ar ein gwefan.

Mae ein trosolwg strategol sy'n amlinellu ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd, ynghyd â'n tri amcan strategol a'n dwy egwyddor cyflawni, ar gael ar ein gwefan.

Mae'r adran amdanom ni ar ein gwefan yn rhoi eglurhad pellach ynglŷn â'r gwaith a wnawn mewn perthynas ag arolygiadau o ddarparwyr addysg a hyfforddiant, darparu cyngor ac arweiniad, meithrin gallu a lledaenu arfer orau, a gweithio mewn partneriaeth ag arolygiaethau eraill.

## Materion a risgiau allweddol

Un o'r heriau allweddol i Estyn yw parhau i gyflawni gwaith arolygu a chynghori o ansawdd uchel a hefyd bodloni datblygiadau ychwanegol, fel cynorthwyo â diwygio'r cwricwlwm, yn ystod cyfnod o gyni parhaus. Nid yw materion adnoddau i Estyn yn ymwneud â chyfyngiadau cyllidebol yn unig; mae sicrhau bod gan y sefydliad weithlu hyblyg sy'n meddu ar y set iawn o fedrau yn allweddol i gyflawni ein hamcanion yn llwyddiannus.

Cynhyrchwn Gynllun Hyfforddi a Datblygu blynyddol i fodloni anghenion datblygu unigol a sefydliadol, a gweithredwn fodel arweinyddiaeth wasgaredig sy'n rhoi cyfleoedd i staff ymgymryd ag ystod o rolau arwain a datblygu gwybodaeth gorfforaethol ar draws Estyn.

Rydym yn cynnal ymgyrch recriwtio blynyddol i ddod ag AEM newydd i mewn. Mae hwn yn ddull cost-effeithiol o recriwtio, ond gall greu problemau pan nad oes modd cysoni dyddiad dechrau recriwtiaid newydd â dyddiad gorffen y staff hynny sy'n gadael Estyn. Ceisiwn ddefnyddio contractau cyfnod penodol rhannol ar gyfer AEM sy'n ymddeol er mwyn darparu ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth a rolau yn hwylus. Yn ogystal, rydym yn cynnal rhaglen o secondiadau o ddarparwyr addysg a hyfforddiant i unigolion weithio gyda ni fel arolygwyr ychwanegol - mae hyn yn rhoi hyblygrwydd a gallu ychwanegol i Estyn, a hefyd yn cynnig cyfle i feithrin gallu ar gyfer gwella ymhlith darparwyr pan fydd y secondai yn dychwelyd i'w swydd wreiddiol. Mae angen i ni reoli ein hadnoddau yn dynn ac mae ein staff wedi'u rhestru mewn rhaglen waith dymhorol a gaiff ei haddasu, fel bo'r angen, er mwyn gwneud y defnydd mwyaf posibl o'n hadnoddau.

### Crynodeb o berfformiad

Bob blwyddyn, mae Estyn yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol, sy'n amlinellu'r gweithgareddau allweddol am y flwyddyn sy'n cefnogi cyflawni ein cenhadaeth ac yn adlewyrchu egwyddorion cyflawni Estyn. Gellir gweld Cynllun Blynyddol 2015-2016 yma. Caiff cyflawniad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad ei fonitro bob chwarter neu bob tymor gan Fwrdd Strategaeth Estyn, a chyhoeddir y canlyniadau trwy gydol y flwyddyn ar ein gwefan yma. Bod blwyddyn, caiff ein targedau perfformiad eu haddasu i bwysleisio datblygiad parhaus. Yn 2015-2016, fe wnaethom gyflawni bob un o'n targedau neu ragori arnynt. Mae'r crynodeb hwn o berfformiad yn amlygu nifer o fesurau perfformiad y cyfeirir atynt yn yr adran dadansoddi perfformiad, gan gynnwys detholiad o'n dangosyddion perfformiad.

**Amcan Strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru**

- Rhaglen lawn o arolygiadau statudol craidd wedi'i chyflawni (**376** o arolygiadau wedi'u cwblhau)
- **30%** o ddarparwyr a arolygwyd wedi cael arolygiadau dilynol er mwyn helpu ysgogi gwelliant
- **100%** o adroddiadau arolygu wedi'u cyhoeddi o fewn y terfynau amser (DP 4)
- **98%** o ddarparwyr wedi dynodi eu boddhad â dibynadwyedd ac annibyniaeth barnau Estyn ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu (DP 3)

**Amcan Strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru**

- **14** o adroddiadau thematig wedi'u cyhoeddi – gyda chanfyddiadau adroddiadau'n cael eu cyfleu'n fwy effeithiol
- **100%** o'r adroddiadau thematig hyn wedi'u cyhoeddi yn unol â'r terfynau amser (DP 6)
- Adroddiad Blynyddol PAEM wedi'i gynhyrchu yn y flwyddyn yn unol â'r amserlen – cyhoeddwyd ar 26 Ionawr 2016 (DP 5)

**Amcan Strategol 3: Meithrin gallu wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru**

- **40** o astudiaethau achos arfer orau wedi'u cyhoeddi
- Cynhaliwyd **45** o ddigwyddiadau hyfforddi ac 13 o ddigwyddiadau arfer orau
- **98.6%** o gynrychiolwyr wedi graddio ein hyfforddiant fel da neu ragorol
- Derbyniwyd bron i **2,000** o ymatebion i'n hymgynghoriad cenedlaethol ar ddull Estyn o arolygu

**Egwyddor Cyflawni 1: Datblygu Estyn yn sefydliad 'gwerth gorau' a 'chyflogwr enghreifftiol'**

- Wedi lleihau Costau Gweithredu Net **2%** yn erbyn gwariant y flwyddyn flaenorol
- Lefelau uchel ymgysylltiad staff wedi'u cynnal – mae Estyn yn y **3** uchaf o **96** o sefydliadau'r gwasanaeth sifil (DP 8)
- Wedi cael achrediad **level 3** o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
- **100%** o gŵynion a cheisiadau am wybodaeth (a wnaed o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data) wedi'u cwblhau o fewn graddfeydd amser targed
- 7.4 o ddiwrnodau, ar gyfartaledd, wedi'u colli oherwydd salwch fesul pob aelod o staff, sef cyfradd absenoldeb salwch flynyddol o **3.6%** (DP 9)

**Egwyddor Cyflawni 2: Cydweithio ag arolygiaethau eraill i gefnogi gwelliant**

- **17** o arolygiadau, ymchwiliadau arbennig ac adolygiadau thematig ar y cyd wedi'u cynnal gydag arolygiaethau eraill yng Nghymru a'r DU (DP 19)
- Seminar AARh ar y cyd ar 4 Chwefror 2016

## 1.2 Dadansoddi perfformiad

### Perfformiad yn erbyn amcanion strategol ac egwyddorion cyflawni

Caiff cynnydd yn erbyn gweithgareddau wedi'u cynllunio ei adrodd yn rheolaidd i Fyrddau Strategol a Gweithredol Estyn, ac mae crynodeb am y flwyddyn yn dilyn isod. Caiff gweithgareddau eu cynllunio a'u hadrodd yn erbyn pob un o'n Hamcanion Strategol ac o dan ein Hegwyddorion Cyflawni.

Lle cyfeirir at Ddangosyddion Perfformiad (DPau) Estyn fel y nodir yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-2016, defnyddir y symbol canlynol: **DP**

Cliciwch ar y symbol i gysylltu â'n gwefan a gweld perfformiad yn erbyn ein targedau am y flwyddyn.

**Amcan Strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru**

## Rhaglen arolygu graidd

Mae [fframwaith arolygu cyffredin](#) (FfAC) yn berthnasol i'r holl sectorau y mae Estyn yn eu harolygu, ac eithrio awdurdodau lleol, ac mae ar gael ar ein gwefan. Mae'r fframwaith arolygu cyffredin wedi'i gynllunio fel bod arolygiadau'n bodloni'r gofynion statudol a bennwyd mewn deddfwriaeth. Mae llawlyfrau arweiniad ar gynnal arolygiadau a llunio barnau ar gael ar ein gwefan [yma](#) ar gyfer pob sector a arolygwn.

### Arolygiadau Craidd Estyn yn ôl sector 2015 - 2016

| Sector | Nifer yn y Cynllun Blynyddol | Nifer gwirioneddol |
|---|---|---|
| Lleoliadau meithrin nas cynhelir<br>* Tynnodd un lleoliad yn ôl o restr yr awdurdod lleol felly nid oeddem yn gallu bwrw ymlaen â'r arolygiad hwnnw, a chytunwyd ar 11 o arolygiadau peilot ar y cyd ag AGGCC a'u hychwanegu at y rhaglen o arolygiadau yn y flwyddyn. | 106 | 116 |
| Ysgolion uwchradd<br>* Llai o arolygiadau yn sgil arolygiadau'n cael eu gohirio a'r ddarpariaeth yn cael ei chau a'i chyfuno. | 42 | 35 |
| Ysgolion arbennig<br>* Arolygiad wedi'i ychwanegu at y rhaglen arolygiadau yn y flwyddyn. | 2 | 6 |
| Ysgolion annibynnol, ysgolion arbennig annibynnol a cholegau arbenigol annibynnol<br>* Ychwanegwyd coleg arbenigol annibynnol at y rhaglen o arolygiadau yn y flwyddyn. | 6 | 7 |
| Hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon (HAGA)<br>* Cafodd ailarolygiad a gynlluniwyd ei ohirio | 1 | 0 |
| Darparwyr dysgu yn y gwaith (DYYG)<br>* Ychwanegwyd dau arolygiad at y rhaglen yn y flwyddyn. | 2 | 4 |
| Cymraeg i Oedolion (CiO)<br>* Roedd newidiadau i'r modd y caiff CiO ei gyflwyno a'i reoli yn golygu ein bod wedi gohirio gweithgarwch arolygu darparwyr unigol hyd nes 2017. | 1 | 0 |
| Ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin a gynhelir<br>* Llai o arolygiadau yn sgil arolygiadau'n cael eu gohirio a'r ddarpariaeth yn cael ei chau a'i chyfuno. | 227 | 202 |
| Ysgolion pob oed<br>* Arolygiadau wedi'u hychwanegu at y rhaglen arolygiadau yn y flwyddyn. | 0 | 1 |
| Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)<br>* Llai o arolygiadau yn sgil arolygiadau'n cael eu gohirio a'r ddarpariaeth yn cael ei chau a'i chyfuno. | 5 | 2 |
| Consortia rhanbarthol<br>* 1 arolygiad wedi'i aildrefnu ar gyfer tymor yr haf. | 2 | 1 |
| Sefydliadau addysg bellach | 2 | 2 |
| Dysgu oedolion yn y gymuned (DOG)<br>* Arolygiadau wedi'u gohirio – arolwg thematig i'w gyhoeddi yn nhymor yr hydref 2016 fel adroddiad 'cyflwr y wlad' er mwyn cael darlun cliriach o'r ddarpariaeth yng ngolau toriadau i gyllid ar gyfer y sector hwn. | 3 | 0 |
| Cyfanswm nifer yr arolygiadau | 399 | 376 |


Mae'r holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn cael eu harolygu o leiaf unwaith mewn cyfnod o chwe blynedd yn dechrau ar 1 Medi 2014. Yn Rhagfyr 2015, cynigiodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ymagwedd fwy hyblyg at arolygu drwy newid rheoliadau i ganiatáu i Estyn arolygu ysgolion a darparwyr eraill unwaith mewn cyfnod o saith mlynedd yn lle cyfnod o chwe blynedd ar gyfer un cylch arolygu. Daw'r newidiadau hyn yn weithredol o Fedi 2016 a bydd yn galluogi Estyn i ymateb yn fwy hyblyg i'n hymgynghoriad parhaus ar arolygiadau ac ystyried y modd gorau i ddefnyddio adnoddau arolygu lle mae eu hangen fwyaf.

Ym mhob sector, ac eithrio lleoliadau cynradd a lleoliadau meithrin nas cynhelir, cafodd yr holl arolygiadau yn 2015-2016 eu harwain gan AEM. Yn y sector cynradd, fe wnaeth AEM arwain tua hanner yr arolygiadau, ac Arolygwyr Cofrestredig, yn gweithio dan gontract gydag Estyn, a arweiniodd yr hanner arall.

Yn y sector meithrin nas cynhelir, fe wnaethom ymgymryd â phrosiect cydweithio yn ystod y flwyddyn gydag Arolygiaeth Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Bu AEM ac AGGCC yn gweithio gyda'i gilydd ar arolygiadau, gyda rhai yn cael eu harwain gan AEM a rhai yn cael eu harwain gan AGGCC. O ganlyniad, cafodd tua 20% o arolygiadau meithrin nas cynhelir eu harwain naill ai gan AEM neu AGGCC. Cafodd y gweddill eu harwain gan Arolygwyr Meithrin Cofrestredig, yn gweithio dan gontract gydag Estyn.


**Arolygu – adnoddau allanol**

Yn 2015-2016 parhaom i recriwtio, hyfforddi a defnyddio arolygwyr cymheiriaid fel rhan o'n timau arolygu ar gyfer pob sector, heblaw am ysgolion annibynnol y brif ffrwd. Unigolion sydd â rôl reoli mewn ysgol neu ddarparwr, neu sydd â phrofiad addysgu neu hyfforddi yn y sector perthnasol, yw arolygwyr cymheiriaid. Maent yn aelodau llawn o dîm arolygu a chyfrannant at y gwaith arolygu ym mhob cwestiwn allweddol. Maent hefyd yn ysgrifennu adrannau yn yr adroddiadau arolygu a ddyrannwyd iddynt gan yr Arolygwyr Cofnodol. Rydym yn ad-dalu darparwyr am gostau cyflenwi, a chaiff costau teithio a chynhaliaeth yn ystod gwaith arolygu eu talu gan Estyn.




Mae’r rhaglen arolygwyr cymheiriaid wedi bod yn llwyddiant mawr, ac erbyn diwedd 2015-2016, roedd bron i 1,000 o arolygwyr cymheiriaid ar draws yr holl ddarparwyr yng Nghymru.

Dim ond ychydig iawn o arolygiadau a gynhaliwyd yn 2015-2016 heb o leiaf un arolygydd cymheiriaid ar y tîm.



Dyma ychydig o dystebau gan unigolion ynglŷn â'r fantais o fod yn arolygydd cymheiriaid.

*"Wedi mwynhau mynd allan fel Arolygydd Cymheiriaid yn fawr iawn.*

*Profiad amhrisiadwy fel datblygiad proffesiynol parhaus ac ar gyfer eich cyd-destun addysg eich hun."*

*"Y Rhaglen Arolygwyr Cymheiriaid yw'r datblygiad proffesiynol mwyaf gwerthfawr yr wyf wedi ymgymryd ag ef, yn bersonol ac yn broffesiynol, ac mae wedi bod o fudd i'r ysgol hefyd."*

*"Byddwn yn argymell yr hyf-forddiant o ddifrif (ac rwyf wedi gwneud i lawer o gydweithwyr). Roedd y cyfle i ymuno â thîm yn ystod arolygiad yn brofiad datblygiadol eithriadol i mi, a byddwn wrth fy modd yn cael y cyfle i ymgymryd ag arolygiad arall yn y dyfodol."*

A dyma rywfaint o adborth gan ddarparwyr.

*"Roedd dull yr arolygydd (lleyg a'r arolygydd) cymheiriaid o gasglu tystiolaeth a thrafod materion gyda staff yn effeithiol a phroffesiynol".*

*"Cyflwyno Arolygwyr Cymheiriaid (ac Enwebeion) yw un o'r mentrau gorau y mae Estyn wedi'i gyflwyno. Mae wedi cynyddu parch at y system arolygu ac wedi helpu cadarnhau a/neu rannu arfer dda yn fwy effeithiol nag unrhyw DPP bron".*

**Gweithgarwch 'arolygu dilynol' statudol a manylach**

Trwy gydol 2015-2016 parhaom i fonitro cynnydd darparwyr y canfuwyd yn ystod eu harolygiad craidd fod angen gweithgarwch dilynol ynddynt.

I ddarparwyr mewn categori gweithgarwch dilynol statudol (gwelliant sylweddol a mesurau arbennig), rydym wedi darparu cymorth a her ychwanegol i helpu'r darparwr i lunio cynlluniau gweithredu addas er mwyn sicrhau'r gwelliannau gofynnol. Er enghraifft, rydym wedi sicrhau bod y darparwr wedi cysylltu'r camau gweithredu cynlluniedig â meini prawf llwyddo y gellir eu mesur. Rydym wedi sicrhau bod y darparwr wedi pennu cost pob cam gweithredu yn ofalus, wedi llunio ffrâm amser addas ac wedi dyrannu pob cam gweithredu i ddeiliad swydd penodol, atebol.

**Astudiaeth achos**

Yn 2011, yn dilyn arolygiad craidd, barnodd arolygwyr fod angen gwelliant sylweddol yn Ysgol Gynradd Deighton. Cafodd ddau ymweliad monitro gan arolygwyr Estyn yn 2012 a 2013. Yn dilyn arolygiad craidd nesaf yr ysgol yng Ngorffennaf 2015, barnodd arolygwyr fod yr holl ddangosyddion yn dda, ac o ganlyniad nid oedd angen unrhyw weithgarwch dilynol.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Ebrill 2012, a phenodwyd y dirprwy bennaeth yn Ebrill 2013. Mae diwylliant yr ysgol wedi newid o ganlyniad i newidiadau i arweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol iawn. Mae ganddo weledigaeth glir i wella cyfleoedd bywyd disgyblion, ac mae'n hyrwyddo amgylchedd dysgu cadarnhaol lle caiff pawb ei annog i ddatblygu uchelgais a chyflawni ei orau. Ceir llinellau atebolrwydd pendant, ac mae arweinwyr yn herio tanberfformiad yn drylwyr. O ganlyniad, mae safonau, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Mae arweinwyr yn defnyddio data'n effeithiol iawn i lywio blaenoriaethau ar gyfer gwella yn y dyfodol. Mae'r dull gweithredu strategol gan yr ysgol wedi gwella uchelgeisiau a chyflawniadau disgyblion difreintiedig yn sylweddol. Enghraifft dda o hyn yw'r ymweliad diweddar â Choleg yr Iesu, Rhydychen, a lwyddodd i godi dyheadau disgyblion hŷn i astudio yn y brifysgol pan fyddant yn gadael yr ysgol.

I ddarparwyr eraill mewn categori gweithgarwch dilynol, rydym wedi ymateb yn hyblyg er mwyn defnyddio'n hadnoddau yn gymesur ac ymateb i anghenion penodol y darparwr. Er enghraifft, rydym wedi monitro ychydig o ddarparwyr gan ddefnyddio monitro 'desg', yn hytrach nag anfon tîm o arolygwyr. Mewn ychydig iawn o achosion, rydym wedi ail-ymweld â darparwr mewn categori gweithgarwch dilynol ar ôl chwe mis pellach i wirio bod gwelliannau wedi'u hymgorffori.

**Canran o arolygiadau craidd Estyn sydd angen gweithgarwch dilynol yn ôl sector**
2014-15 i 2015-16

| Sector | Blwyddyn | Cyfanswm yr arolygiadau craidd | % y mae angen gweithgarwch dilynol statudol arnynt | % y mae angen eu monitro gan Estyn |
|---|---|---|---|---|
| Lleoliadau meithrin nas cynhelir | 2014 - 2015 | 124 | n/a | 9% |
| | 2015 - 2016 | 116 | n/a | 16% |
| Ysgolion cynradd | 2014 - 2015 | 221 | 8% | 28% |
| | 2015 - 2016 | 202 | 4% | 26% |
| Ysgolion uwchradd | 2014 - 2015 | 34 | 29% | 35% |
| | 2015 - 2016 | 35 | 14% | 46% |
| Ysgolion pob oed | 2014 - 2015 | 0 | n/a | 0% |
| | 2015 - 2016 | 1 | 100% | 0% |
| Ysgolion arbennig | 2014 - 2015 | 7 | 14% | 0% |
| | 2015 - 2016 | 6 | 33% | 33% |
| Unedau Cyfeirio Disgyblion | 2014 - 2015 | 4 | 0% | 75% |
| | 2015 - 2016 | 2 | 100% | 0% |
| Ysgolion annibynnol, ysgolion arbennig annibynnol a cholegau arbenigol annibynnol | 2014 - 2015 | 9 | n/a | 0% |
| | 2015 - 2016 | 7 | n/a | 0% |
| Consortia rhanbarthol | 2014 - 2015 | 0 | n/a | 0% |
| | 2015 - 2016 | 1 | n/a | 0% |
| Darparwyr ôl-16 * | 2014 - 2015 | 10 | 10% | 30% |
| | 2015 - 2016 | 6 | 0% | 17% |
| Yr holl arolygiadau | 2014 - 2015 | 409 | 7% | 22% |
| | 2015 - 2016 | 376 | 5% | 24% |

* mae'n cynnwys sefydliadau Addysg Bellach, Dysgu yn y Gwaith, Dysgu Oedolion yn y Gymuned, Cymraeg i Oedolion a Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol i Athrawon.

| Canran y darparwyr a arolygwyd yr oedd angen gweithgarwch dilynol[a] arnynt, 2010-2011 i 2015-2016[b,c] | | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn ariannol** | **Nifer yr arolygiadau craidd** | **Nifer a arolygwyd y canfuwyd bod angen gweithgarwch dilynol arnynt** | **Canran y canfuwyd fod angen gweithgarwch dilynol arnynt** |
| 2010-2011 | 269 | 51 | 19% |
| 2011-2012 | 445 | 113 | 25% |
| 2012-2013 | 419 | 116 | 28% |
| 2013-2014 | 391 | 128 | 33% |
| 2014-2015 | 409 | 123 | 30% |
| 2015-2016 | 376 | 111 | 30% |

[a] Mae'n cynnwys gweithgarwch dilynol statudol (e.e. Gwelliant Sylweddol neu Fesurau Arbennig) a monitro gan Estyn yn unig. Nid yw'n cynnwys monitro gan awdurdod lleol na monitro gan Arolygwyr Cyswllt.
[b] Blwyddyn ariannol
[c] Mae'n cynnwys 11 o arolygiadau peilot ar y cyd ag AGGCC ar gyfer darparwyr meithrin nas cynhelir

**Sicrhau ansawdd arolygiadau ac adroddiadau Estyn** **DP 1**

Rydym wedi cynnal hyder rhanddeiliaid yn ansawdd arolygiadau drwy sicrhau ansawdd adroddiadau'n drylwyr cyn eu cyhoeddi. Yn 2015-2016, fe wnaethom sicrhau ansawdd, dilysu a chymedroli adroddiadau'r holl arolygiadau dan arweiniad Estyn. AEM nad ydynt yn rhan o'r tîm arolygu gwreiddiol sy'n ymgymryd â'r broses sicrhau ansawdd. Mae AEM sy'n dilysu a chymedroli adroddiadau yn dilyn canllaw ar sicrhau ansawdd adroddiadau ac arolygiadau a gyhoeddir ar wefan Estyn. Yn 2015-2016, ni fu angen newid yr un o'n hadroddiadau arolygu cyhoeddedig ar ôl eu cyhoeddi o ganlyniad i her sylweddol i farnau.

Mae canlyniadau arolwg a gasglwyd yn 2015-2016 yn dynodi bod darprawyr yn gweld arolygiad fel proses gadarnhaol sy'n hyrwyddo gwelliant. **DP 2** **DP 3**

Yn unol â'n polisi (trefniadau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau), cynhaliom ymweliadau sicrhau ansawdd â rhyw 10% o arolygiadau yn y sector cynradd ac â rhyw 20% o arolygiadau yn y sector meithrin nas cynhelir dan arweiniad Arolygwyr Cofrestredig. Ymwelom hefyd â rhyw 5% o arolygiadau dan arweiniad AEM fel rhan o'n prosesau sicrhau ansawdd.

Yn ystod 2015-2016, cafodd ein holl adroddiadau arolygu eu cyhoeddi mewn modd amserol. **DP 4**

Cynhaliwyd archwiliad mewnol o systemau a phrosesau sicrhau ansawdd ar ddiwedd y flwyddyn a rhoesom 'sicrwydd sylweddol' fod y rheolaethau sydd ar waith i reoli'r materion yn y maes hwn wedi'u cynllunio'n addas ac yn cael eu cymhwsyo'n

gyson.  Canfyddiad allweddol yr adroddiad oedd bod gan Estyn broses sicrhau ansawdd sefydledig ac effeithiol ar gyfer arolygiadau, ac fe’i gwelir gan AEMau fel proses werthfawr sy’n cynnwys cydbwysedd priodol rhwng cymorth a her.

**Ffrydiau gwaith arolygu newydd, yn cynnwys adolygu, treialu a diweddaru’r arweiniad ar arolygu**

Yn 2015-2016, gweithiom gydag AGGCC i ddatblygu fframwaith cyd-arolygu ar gyfer lleoliadau nas cynhelir.  Yn ystod yr hydref 2015 a’r gwanwyn 2016, fe wnaethom gynnal peilot o’r fframwaith hwn mewn 11 o leoliadau nas cynhelir.  Roedd y math o leoliadau a arolygwyd fel rhan o’r peilotau yn cynnwys meithrinfeydd dydd a chylchoedd chwarae yn ogystal â lleoliadau a oedd yn cynnig darpariaeth cyfrwng Saesneg neu Gymraeg.  Byddwn yn arfarnu’r peilotau yn ystod yr haf 2016.  Byddwn yn parhau i dreialu trefniadau arolygu yn ystod yr hydref 2016 a 2017.

Aethom ati hefyd i ddatblygu a threialu trefniadau newydd ar gyfer arolygu sefydliadau addysg bellach yn nhymor y gwanwyn 2015, a darparom hyfforddiant i arolygwyr cymheiriaid yn y sector hwn yn nhymor yr haf 2015.  Dechreuodd y cylch arolygu newydd ar gyfer addysg bellach gydag arolygiad o Goleg Cambria yn nhymor yr hydref 2015 a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr yn nhymor y gwanwyn 2016.

Rydym wedi datblygu fframwaith ar gyfer arolygu consortia gwella ysgolion rhanbarthol.  Ymgynghorom â’n rhanddeiliaid allweddol yn ystod cyfnod datblygu’r fframwaith.  Fel rhan o’r sail dystiolaeth, cynhaliom arolwg canfyddiadau o holl benaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr ysgolion a gynhelir er mwyn casglu eu barnau ynglŷn ag effeithiolrwydd cymorth a her a gânt gan y consortia. Cafodd Consortiwm Canolbarth y De ei arolygu ar ddiwedd Mawrth 2016 a bydd y tri chonsortiwm arall yn cael eu harolygu yn ystod tymor yr haf 2016.

Rydym wedi datblygu cynigion cynnar ar gyfer arolygu awdurdodau lleol o 2017 ymlaen.  Bydd y cynigion yn cael eu hystyried a’u datblygu yn ystod 2016-2017, gan roi ystyriaeth lawn i’r amserlen ar gyfer diwygio llywodraeth leol.

**Amcan Strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru**

**Cyhoeddi adroddiadau thematig i ymateb i lythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog a darparu cyngor arall i Lywodraeth Cymru**

I ymateb i lythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog, yn 2015-2016, cyhoeddom 14 o adroddiadau thematig ar y testunau canlynol:

| Enw | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|
| Effaith athrawon ymgynghorol ar leoliadau nas cynhelir a ariennir | Mai 2015 |
| Arfer orau mewn addysgu a dysgu yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2 | Mai 2015 |
| Pa mor dda y mae sefydliadau addysg bellach yn rheoli cwynion dysgwyr? | Mai 2015 |
| Gwella ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol | Mehefin 2015 |
| Arfer orau o ran datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion | Mehefin 2015 |
| Arfer effeithiol o ran gwella presenoldeb mewn ysgolion cynradd | Mehefin 2015 |
| Addysg heblaw yn yr ysgol: arolwg arfer dda | Mehefin 2015 |
| Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion | Mehefin 2015 |
| Adolygiad o bolisïau ymweliadau addysgol yn y sector addysg bellach | Medi 2015 |
| Arsylwi addysg a dysgu yn effeithiol mewn colegau addysg bellach | Hydref 2015 |
| Chwalu rhwystrau rhag prentisiaethau | Hydref 2015 |
| Defnydd statudol o safonau arweinyddiaeth wrth reoli perfformiad penaethiaid | Tachwedd 2015 |
| Gwasanaethau cymorth dysgwyr mewn colegau addysg bellach ar gyfer dysgwyr 16-19 oed | Rhagfyr 2015 |
| Effaith y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (Teach First) yng Nghymru | Chwefror 2016 |

Cyhoeddwyd yr holl adroddiadau o fewn y graddfeydd amser a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru.

**DP 6**

Fe wnaethom ddatblygu pecyn cymorth a darparu hyfforddiant i arolygwyr cymheiriaid ar gyfer eu cyfranogiad mewn arolygon thematig yn ystod tymor yr haf 2015, cyflwynom sesiwn hyfforddi ar gyfer AEM newydd ar ein harolygon thematig, a darparom becyn briffio i arweinydd pob arolwg thematig a oedd yn amlinellu ymchwil berthnasol bresennol ac yn cynnwys awgrym am fframwaith ar gyfer ymgymryd â'r prosiect.

Darparom gyngor a chymorth i Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) Llywodraeth Cymru fel bo'r gofyn, gan gynnwys cyfranogi mewn ystod o bwyllgorau, grwpiau gweithio a chynghori.

Hefyd, cyfrannom at adroddiadau ar gyd-arolygiadau ac arolygon yn cynnwys cyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio eraill.

Rydym wedi darparu ystod o gymorth ac arweiniad i Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod cychwynnol y rhaglen diwygio'r cwricwlwm. Caiff Estyn ei gynrychioli ar lawer o'r grwpiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r rhaglen. Eleni, mae Estyn wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru yn ystod cyfnod datblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Wrth baratoi ar gyfer trefnu i'r fframwaith hwn fod ar gael o Fedi 2016, rydym wedi gwneud rhai diwygiadau i'n llawlyfrau arolygu a chynlluniwn i ddarparu hyfforddiant ychwanegol i'n harolygwyr.

Yn ystod 2015-2016, gweithiom gyda'r AdAS i ddiwygio strwythur arolygon thematig ar gyfer 2016-2017 i ddarparu model mwy hyblyg sy'n galluogi ymateb yn gyflym hyd at eitemau sylweddol a allai arwain at gynadleddau rhanbarthol a chenedlaethol.

Gan edrych i'r dyfodol, rydym wedi cyflwyno dangosydd perfformiad newydd ar gyfer 2016-2017; ei nod yw ceisio cipio effaith Estyn ar ddatblygu polisi cenedlaethol a mentrau addysg a hyfforddiant: targed o 90% o argymhellion ar gyfer gwella yn cael eu derbyn yn llawn i'w gweithredu gan Lywodraeth Cymru

**DP 7**

## Cynhyrchu a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol PAEM

Cynhyrchodd PAEM ei Adroddiad Blynyddol cyntaf ar ansawdd addysg a hyfforddiant ar gyfer blwyddyn academaidd 2014-2015, gan ei gyhoeddi yn Ionawr 2016.

**DP 5**

Cynhyrchwyd fersiwn o'r rhagair ac adran thematig yr adroddiad ar y we, ac roedd yr adroddiad cyfan ar gael ar-lein i'w ddarllen ar ddyfeisiadau electronig llaw, gan gynnwys llechi a ffonau symudol, yn ogystal â chyfrifiaduron personol a gliniaduron. Cyhoeddom fersiwn hygyrch hefyd fel bod modd darllen y fersiwn 'pdf' gan ddarllenwyr sgrin ar-lein.

Cysylltodd Estyn yn effeithiol â swyddfa'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a swyddogion Llywodraeth Cymru, er mwyn cyfleu'n benodol ein negeseuon allweddol o'n pennod thematig am y cwricwlwm yng Nghymru.  Cafodd yr adran thematig, yn enwedig y cwestiynau hunanarfarnu, dderbyniad da.

Lansiwyd gwefan ddata rhyngweithiol newydd Estyn gennym pan gyhoeddom Adroddiad Blynyddol PAEM.  Mae hyn yn golygu nad yw'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o ddeilliannau arolygu, ond mae'n cynnwys dolenni trwy gydol yr adroddiad at y wefan hon.  Roedd yr Adroddiad Blynyddol hefyd yn dangos amrywiaeth eang o astudiaethau achos o ystod o ddarparwyr ledled Cymru.

Aethom ati i ddylunio a gweithredu ymgyrch yn y cyfryngau i gefnogi lansio'r Adroddiad Blynyddol.  Roedd hyn yn cynnwys ffilm, a gyflawnodd lawer iawn o gyhoeddusrwydd cadarnhaol ac a greodd ddadlau a thrafod yn y cyfryngau. Cyfrannodd y defnydd o Twitter yn sylweddol at ddadlau a thrafod cyhoeddus, ac anogodd sylwadau gan gynulleidfa eang, gan gynnwys gweithwyr addysg proffesiynol, undebau athrawon, consortia ac aelodau'r cyhoedd.

## Datblygu arweinyddiaeth wasgaredig trwy rolau Arolygwyr Arweiniol / Swyddogion Arweiniol / Arolygwyr Cyswllt

Mae Estyn wedi sefydlu perthynas weithio adeiladol gyda phob awdurdod lleol trwy barau o arolygwyr cyswllt.  Mae gweithio mewn parau wedi lleihau'r risg y byddwn yn colli cysylltiad ag awdurdod os bydd arolygydd i ffwrdd o'r gwaith neu'n gadael y sefydliad.  Yn ystod 2015-2016, cynhaliom arfarniad parhaus o bob awdurdod lleol; crynodebau byr dwy dudalen o'n barn ddiweddaraf am yr awdurdod yw'r rhain, ac maent yn gymorth i lywio cyfarfodydd trwy gydol y flwyddyn rhwng PAEM ac uwch aelodau staff gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.

Fel rhan o'r drefn, mae Estyn wedi:

- dadansoddi a dehongli data perfformiad ac adroddiadau arolygu, a defnyddio hyn yn effeithiol i herio awdurdodau lleol ynglŷn â'u darpariaeth
- monitro perfformiad a chynnydd darparwyr yn erbyn cynlluniau gweithredol ôl-arolygiad, ac wedi mynd ar drywydd pryderon penodol gan arolygwyr cofnodol gydag awdurdodau lleol ar gyfer darparwyr lle nad yw'r cynnydd yn ddigon da

- wedi mynd ar drywydd materion penodol gyda darparwyr lle bo'n briodol
- wedi anelu at nodi arfer orau, er bod yr amser cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer gwaith Arolygydd Cyswllt Awdurdod Lleol (ACALl) yn gwneud hyn yn her

Trwy gydol 2015-2016, fe wnaethom gadw cyswllt parhaus gydag arolygiaethau, archwilwyr a rheoleiddwyr eraill. Mae hyn wedi arwain at weithgarwch arolygu ar y cyd mewn ychydig o awdurdodau lle'r oedd diddordeb cyffredin mewn agwedd ar waith yr awdurdod lleol. Hefyd, fe wnaethom ddrafftio arfarniad o berfformiad ysgol, sydd wedi'i gynnwys yn Adroddiad Gwella Blynyddol diweddaraf Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer pob awdurdod lleol.

Rhoesom gyngor i Lywodraeth Cymru ar ddatblygu consortia rhanbarthol, ac un effaith allweddol oedd diwygio'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol. Hefyd, aethom ati i adolygu rolau'r swyddogion arweiniol mewn perthynas â'r cwricwlwm ac ailgyfeirio'r adnodd hwn i gynorthwyo datblygu'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, gan gynnwys creu rôl arweiniol newydd mewn perthynas â datblygu'r cwricwlwm.

Darparom hyfforddiant i gynorthwyo swyddogion arweiniol mewn perthynas â'u rolau, er enghraifft mewn perthynas â dylanwadu ar fedrau, a pharhaom i ddatblygu ein rolau arolygwyr cyswllt ôl-16 gyda chyfarfodydd rheolaidd yn canolbwyntio ar faterion allweddol yn y sector ôl-16.

**Datblygu galluoedd rheoli gwybodaeth**

Parhaodd Estyn i ddatblygu ei systemau electronig (SharePoint) ar gyfer rhannu a choladu gwybodaeth o grwpiau a phwyllgorau allanol a mewnol, gan roi ystyriaeth i feysydd newydd a datblygol o'n gwaith, fel cefnogi Dyfodol Llwyddiannus a'n trefniadau arolygu newydd.

Yn benodol, fe wnaethom:

- sefydlu cyfres o seminarau yn canolbwyntio ar ymchwil ar gyfer AEM yn archwilio'r defnydd o ddata yn ein gwaith arolygu, arolygon thematig a'n gwaith ehangach
- mireinio ein diweddariad ymchwil misol ar gyfer staff i gynnwys newyddion am gyhoeddiadau perthnasol fel datganiadau ysgrifenedig a wnaed gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, yn ogystal â chrynhoi darnau allweddol o ymchwil fewnol, genedlaethol a rhyngwladol
- parhau i ddarparu cymorth ar gyfer datblygu ein gwaith arolygon thematig, yn cynnwys darparu hyfforddiant a mireinio deunyddiau cefnogi
- sefydlu proses gyfeirio fwy cadarn yn seiliedig ar system Gyfeirio Harvard a chynnig hyfforddiant ar egwyddorion y system newydd hon a'i defnyddio'n effeithiol
- datblygu cofnod Arweiniad ar Ddeddfwriaeth a Pholisi er mwyn galluogi staff i allu mynd yn rhwydd at yr holl ddogfennau arweiniad ar ddeddfwriaeth a pholisi yn gysylltiedig ag arolygu darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru
- gwella ein prosesau storio ac adfer data, gan gadw'r holl ddata mewn cronfeydd data SQL diogel, sy'n cysylltu'n effeithiol â'n systemau rheoli perfformiad amrywiol a'n systemau adrodd am wybodaeth cyn-arolygiad

Yn 2015, cyflwynom gyfarfod tymhorol hefyd gyda Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, a’r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, i drafod a rhannu gwybodaeth am ymchwil ac arolygon thematig.

**Rôl Estyn fel ymgynghorai ar gynigion trefniadaeth ysgolion**

Ymatebodd Estyn i 52 o gynigion ad-drefnu ysgolion.




Daethom i’r casgliad fod 45 o gynigion yn debygol o gynnal neu wella deilliannau addysgol.

Nid oedd saith cynnig yn rhoi digon o wybodaeth i ni lunio barn y naill ffordd neu’r llall.

Cynhaliom drafodaethau gyda swyddogion yn Llywodraeth Cymru er mwyn arfarnu defnyddioldeb ein hymatebion, a chawsom adborth cadarnhaol. Gwnaethom newid bach i ganllaw mewnol Estyn er mwyn ei gysoni mwy â chod ad-drefnu ysgolion Llywodraeth Cymru.

**Amcan Strategol 3: Meithrin gallu wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru**

## Digwyddiadau hyfforddi a chynadleddau dan arweiniad Estyn

Mae Estyn yn gwneud defnydd gwerthfawr o wybodaeth o waith arolygon thematig a gwaith arolygu i lywio ein rhaglen hyfforddi a'n gwaith meithrin gallu. Darparwn raglen gynhwysfawr o hyfforddiant i gynorthwyo darparwyr i ddatblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o arolygu, ac i uwch arweinwyr yn y sefydliadau hynny ddatblygu ystod o fedrau sydd nid yn unig yn cynorthwyo arolygu, ond sy'n llywio'u gwaith fel uwch arweinydd yn eu hysgol. Yn 2015-2016, cynhaliom gyfanswm o 45 o ddigwyddiadau hyfforddi ac 13 o ddigwyddiadau arfer orau, gan gynnwys chwe digwyddiad fforwm rhanddeiliaid sector a chynhadledd Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol. Ein nod yw sicrhau bod digwyddiadau hyfforddi a chynadleddau arfer orau a gynhelir gan Estyn yn bodloni anghenion cynrychiolwyr; dywedodd 98.6% o gynrychiolwyr fod ein hyfforddiant yn dda neu'n rhagorol.

**DP 8**


Prif hanfod ein gwaith yn 2015-2016 oedd hyfforddi arolygwyr cymheiriaid ac ymgynghorwyr her i'n helpu i gyflawni ein rhaglen arolygu. Mae ein hyfforddiant yn darparu cyfleoedd rhagorol i uwch arweinwyr mewn ysgolion a darparwyr eraill i ddatblygu dealltwriaeth well o'n gwaith ac i gryfhau eu dealltwriaeth o bwysigrwydd hunanarfarnu a systemau sicrhau ansawdd cadarn i gefnogi gwelliant. Cafodd ein rhaglen hyfforddi ar gyfer 'ymgynghorwyr her' ei haddasu ymhellach yn 2015 i sicrhau ei bod nid yn unig yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau arolygu, ond ei bod yn ategu gwaith ymgynghorwyr yn cynorthwyo a herio ysgolion.

Rydym wedi cyflwyno dangosydd newydd ar gyfer 2016-2017 sydd â'r nod o sicrhau bod arolygwyr cymheiriaid yn ystyried eu hyfforddiant/lleoliad fel gweithgareddau cadarnhaol a buddiol: targed o 95% o arolygwyr cymheiriaid yn rhoi ymateb cadarnhaol i arolwg.

**DP 9**

## Nodi a lledaenu arfer orau

Rydym wedi dyblu nifer yr astudiaethau achos o arfer orau a gynhyrchwyd.





Yn 2015, ar ein gwefan, fe wnaethom wella rhwyddineb mynediad at enghreifftiau o arfer orau, gan alluogi i'n hastudiaethau achos gael eu hidlo yn ôl cwestiwn allweddol, dangosydd ansawdd, geiriau allweddol, ac yn ôl sector ac awdurdod lleol.

Yn ystod 2015-2016, dechreuom hyrwyddo astudiaethau achos o arfer orau trwy Twitter gan ddefnyddio trydariadau sy'n cynnwys enw trydar yr ysgol, enw trydar yr ALl, dolen at yr astudiaeth achos a delwedd drawiadol i dynnu sylw'r darllenydd. Caiff pob astudiaeth achos un trydariad cyhoeddi, ac un trydariad atgoffa a gaiff ei bostio ryw wythnos ar ôl yr un cyntaf. Caiff darparwyr wybod pan fydd eu hastudiaeth achos yn cael ei chyhoeddi, a chynhwysir astudiaethau achos ar ddiweddariad misol Estyn i'r holl danysgrifwyr. Mae dyluniad cyffredinol ein hastudiaethau achos ar ein gwefan wedi cael ei wella fel eu bod yn haws i ddarllenwyr eu defnyddio.

**Cyfleu canfyddiadau adroddiadau thematig yn fwy effeithiol**

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom wella fformat ein gwefan i gyflwyno ein hadroddiadau thematig. Er enghraifft, gellir hidlo adroddiadau yn ôl sector, tag geiriau a mathau o ddogfen (e.e. PowerPoint, dogfen Word, fideo).




Caiff argymhellion eu rhoi ar y brif dudalen sy'n disgrifio'r adroddiad thematig er mwyn cyfleu'r prif negeseuon yn gliriach. Mae ychydig o adroddiadau thematig, fel arfer orau yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnod allweddol 2, yn cael eu hyrwyddo ar YouTube gyda fideo. Rydym wedi bod yn hyrwyddo'r dull amlgyfrwng hwn yn amlach yn ystod 2015-2016. Rydym hefyd yn monitro'r data ar ddefnyddio'r fideos hyn mewn adroddiadau chwarterol ar ein cyfathrebiadau, ac mae hyn yn ein helpu i arfarnu pa mor effeithiol rydym yn cyfleu'r adroddiadau hyn mewn gwirionedd.

Caiff yr holl adroddiadau eu hyrwyddo drwy Twitter, a thrwy gylchlythyrau, fel gydag astudiaethau achos o arfer orau.

**Datblygu partneriaethau cadarn gyda rhanddeiliaid**

Rhwng Hydref a Thachwedd 2015, cynhaliom ymgynghoriad cenedlaethol ynglŷn â'r modd y mae Estyn yn arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Denodd yr ymgynghoriad lawer o ddiddordeb a thraffig i'n gwefan. Derbyniom bron i 2,000 o ymatebion i'n holiadur ar-lein. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys ffocws penodol ar ymgysylltu â rhanddeiliaid 'anodd eu cyrraedd', a gynhaliwyd ar ein rhan gan gwmni ymchwil. Fel rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliom weithdai gyda grwpiau penodol, er enghraifft penaethiaid yng Nghonsortiwm Canolbarth y De a Chonsortiwm GwE, AEM, a staff corfforaethol Estyn. Fe wnaethom ymgynghori hefyd â swyddogion yn Llywodraeth Cymru.

Cynhaliom Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol blynyddol yn Llandrindod ym Mawrth 2016 ar gyfer cynrychiolwyr o bob corff swyddogol sydd wedi'u rhestru ar ein rhestr rhanddeiliaid. Canolbwyntiodd y digwyddiad ar y prif negeseuon o Adroddiad Blynyddol PAEM a'r syniadau sy'n datblygu mewn perthynas â'n trefniadau arolygu newydd. Mynychwyd y digwyddiad gan 70 o gynrychiolwyr.

Cynhaliodd Estyn arolwg ar-lein hefyd ar gyfer holl benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ysgolion a gynhelir er mwyn casglu eu barnau ynglŷn â gwaith y consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol o ran cefnogi'u hysgolion. Yn ogystal, cynhaliom gyfres o gyfarfodydd Fforwm y Rhwydwaith Sectorau, o leiaf unwaith ar gyfer pob sector bron yn ystod y flwyddyn.

Fe wnaeth Cyfarwyddwyr Cynorthwyol neu'r arolygydd arweiniol sector perthnasol fynychu digwyddiadau a gynhaliwyd gan gyrff addysg, gan gynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC), Colegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Llywodraethwyr Cymru a Chynghorau. Parhaom i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru trwy gyfarfodydd rhwng PAEM, Cyfarwyddwyr Strategol a Chyfarwyddwr Cynorthwyol a'u swyddogion cyfwerth yn Llywodraeth Cymru, fel rhan o raglen o gyfarfodydd rheolaidd i roi cyngor i'r Llywodraeth.

Lansiodd Estyn ei wefan newydd a pharhaodd i wneud gwelliannau ar sail adborth er mwyn sicrhau bod athrawon, gweithwyr addysg proffesiynol eraill, rhieni a'r holl randdeiliaid yn gallu mynd yn rhwydd at ein hadroddiadau arolygu, adroddiadau thematig arfer orau a chyhoeddiadau eraill.

Cyhoeddom gylchlythyr rhanddeiliaid Estyn ddwywaith y flwyddyn, gan ei hyrwyddo drwy ein holl sianelau cyfathrebu, yn cynnwys neges e-bost at yr holl arolygwyr ychwanegol, arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr lleyg, darparwyr addysg a hyfforddiant, ac unrhyw un a oedd wedi tanysgrifio drwy ein gwefan. Hefyd, fe wnaethom anfon neges e-bost Diweddariad Estyn yn fisol at ein tanysgrifwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant.

Ymgysylltom ag arolygiaethau, cyrff archwilio a chyrff rheoleiddio eraill i ystyried a gweithredu gwaith ar y cyd lle bo'n briodol. Er enghraifft, y llynedd, cynhaliodd Estyn 11 o gyd-arolygiadau gydag AGGCC yn treialu'r fframwaith ar y cyd newydd ar gyfer lleoliadau nas cynhelir. Hefyd, ymgysylltom ag arolygiaethau ledled Ewrop drwy ein hymglymiad yng ngrŵp arolygiaethau gwledydd Prydain a Chynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau addysg cenedlaethol a rhanbarthol (SICI), a wnaeth ein galluogi ni i ddysgu oddi wrth rai eraill ac ystyried ymagweddau gwahanol at arolygu.

**Egwyddor Gyflawni 1: Datblygu Estyn yn sefydliad 'gwerth gorau' a 'chyflogwr enghreifftiol'**

Yn 2015-2016, parhaom â'n gwaith ar nifer o fentrau trawsbynciol i helpu gwella Estyn fel sefydliad. Mae ein cynlluniau gweithredu yn cefnogi agweddau ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.


**DP 16**

### Cydraddoldeb

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn ceisio cefnogi cydraddoldeb ar draws Estyn a thrwy ein prosesau arolygu. Ym Mawrth 2016, cyhoeddom ein hail Gynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS).

**DP 18**

Cynhyrchwyd y CCS mewn ymgynghoriad â staff ac undebau llafur, ac mae'n parhau â'r gwaith a wnaed yn Estyn i ymgorffori amrywiaeth a chydraddoldeb yn llawn ym mhob peth a wnawn. Mae cynlluniau gweithredu blynyddol yn sail i'r CCS; dyma rai o'r gweithgareddau yr ymgymeron ni â nhw yn 2015-2016:




### Cynaliadwyedd

Fe wnaethom gynnal system rheolaeth amgylcheddol a chawsom ein hailachredu gyda 'Safon y Ddraig Werdd' (lefel 3) yn Hydref 2015. Defnyddiom y broses achredu i nodi unrhyw gyfleoedd i wella ein gweithgareddau rheoli amgylcheddol ymhellach, ac amlinellwyd y rhain yn ein Polisi a Datganiad Amgylcheddol.

Rydym wedi nodi bod ein prif effeithiau ar yr amgylchedd yn deillio o ddefnyddio ynni, trafnidiaeth, cynhyrchu gwastraff a defnyddio deunyddiau swyddfa. Lluniwyd amcanion a thargedau er mwyn gwella rheolaeth a pherfformiad amgylcheddol a lleihau effeithiau amgylcheddol Estyn.

Gellir gweld perfformiad yn erbyn amcanion amgylcheddol ar gyfer 2015-2016 ar ein gwefan yn Adroddiad Cynaliadwyedd Cryno 2015-2016.

**Safonau iechyd**

Fe wnaethom sicrhau bod ein hymrwymiad i iechyd a lles staff yn parhau yn flaenoriaeth, gan hyrwyddo materion perthnasol, archwiliadau iechyd blynyddol i'r staff a Rhaglen Cymorth Cyflogeion. Hefyd, cynhaliom y momentwm o ennill yr achrediad Safon Iechyd Corfforaethol Arian yn 2014, drwy ymrwymo'r un lefel o adnoddau ac ymdrech i'n gweithgareddau.

**Ymgysylltiad staff**

Yn 2015-2016, parhaodd Estyn o fewn y 5% uchaf o sefydliadau yr adroddwyd amdanynt yng nghanlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, gyda sgôr mynegai ymgysylltu cyffredinol o 73%, sy'n cymharu'n ffafriol â'r mynegai ymgysylltu ledled y Gwasanaeth Sifil, sef 58%. Mae'r tabl isod yn cymharu perfformiad Estyn â pherfformiad cyfartalog y gwasanaeth sifil ers cyflwyno'r Arolwg yn 2010.

**DP 10**


| Blwyddyn | Ymgysylltiad y gwasanaeth sifil | Ymgysylltiad Estyn | Safle Estyn (allan o 96+ o sefydliadau*) |
|---|---|---|---|
| 2015 | 58% | 73% | 3 |
| 2014 | 59% | 71% | 4 |
| 2013 | 59% | 69% | 4 |
| 2012 | 62% | 69% | 5 |
| 2011 | 60% | 70% | 6 |
| 2010 | 56% | 66% | 9 |


Noder: *mae nifer y sefydliadau sy'n cymryd rhan yn yr Arolwg yn amrywio bob blwyddyn.

O ystyried siartiau themâu yr Arolwg, dros y pum mlynedd diwethaf, gellir gweld gwelliannau mewn llawer o feysydd gan gynnwys fy ngwaith, fy rheolwr, fy nhîm, adnoddau a llwyth gwaith, cyflog a buddiannau, arweinyddiaeth a rheoli newid. Fodd bynnag, mae pedair thema, sy'n cynnwys amcanion a diben sefydliadol, fy rheolwr, dysgu a datblygu a chynhwysiant a thriniaeth deg, sydd wedi gweld gostyngiad bach er 2014. Er bod sgorau ar gyfer y themâu hyn wedi gostwng, mae pob un ohonynt yn cymharu'n ffafriol â chanlyniadau'r Gwasanaeth Sifil yn 2015, ac mae rhai yn cymharu'n ffafriol â pherfformwyr uchel y Gwasanaeth Sifil yn 2015. Gweler y tabl penawdau allweddol ar dudalen 28.

## Estyn – Sgorau Themâu 2010-2015

Gellir gweld gwelliannau mewn llawer o themâu dros y pum mlynedd diwethaf; fodd bynnag, mae pedair thema sydd wedi gweld gostyngiad er 2014.



# Prif benawdau

**Mynegai ymgysylltu**

**73%**

| | |
|---|---|
| Gwahaniaeth o'r arolwg blaenorol | +2 |
| Gwahaniaeth o GS2015 | +15 ✧ |
| Gwahaniaeth oddi wrth berfformwyr uchel y GS | +10 ✧ |

- Mae llawer o ddangosyddion yn debyg i 2014, ac mae pob un ohonynt yn uwch na pherfformwyr uchel y Gwasanaeth Sifil (GS) ac yn sylweddol uwch na'r Gwasanaeth Sifil yn 2015 (GS2015).
- Gwelliant sylweddol mewn Arweinyddiaeth a rheoli

Eich safle allan o 96 o sefydliadau yn 2015: 3 (4 yn 2014)

✧ Gwahaniaeth sylweddol yn ystadegol o gymharu

Cryfder y cysylltiad ag ymgysylltu

| | Gwahaniaeth o'r arolwg blaenorol | Gwahaniaeth o GS2015 | Gwahaniaeth oddi wrth berfformwyr uchel y GS |
|---|---|---|---|
| Fy ngwaith 84% | +1 | +9 ✧ | +6 ✧ |
| Amcanion a diben sefydliadol 95% | -3 | +13 ✧ | +9 ✧ |
| Fy rheolwr 75% | -2 | +7 ✧ | +4 ✧ |
| Fy nhîm 88% | +3 | +9 ✧ | +5 ✧ |
| Dysgu a datblygu 61% | -2 | +12 ✧ | +6 ✧ |
| Cynhwysiant a thriniaeth deg 81% | -2 | +6 ✧ | +2 |
| Adnoddau a llwyth gwaith 87% | +1 | +14 ✧ | +10 ✧ |
| Cyflog a buddion 52% | +1 | +22 ✧ | +16 ✧ |
| Arweinyddiaeth a rheoli newid 76% | +6 ✧ | +33 ✧ | +24 ✧ |

Mae manylion llawn canlyniadau arolwg pobl Estyn 2015 ar gael ar ein gwefan.

Roedd y camau gweithredu allweddol a ddygwyd yn eu blaen gan Grŵp Ymgysylltu Cyflogeion Estyn yn y flwyddyn yn cynnwys:

- ystyried gweithgareddau dysgu a datblygu er mwyn gwella perfformiad a datblygiad gyrfa, gan gynnwys annog staff i ddatblygu ar gyfer y radd nesaf drwy nodi cyfleodd hyfforddi anffurfiol, cwblhau cynlluniau datblygu personol, annog mentora a hyfforddi a threfnu cysgodi swyddi
- ail-bwysleisio'r pecyn buddiannau cyfan, gan hyrwyddo cyfleoedd lle gall cyflogeion gynilo yn ein cylchlythyr staff 'Eich Estyn', atgoffa cyflogeion am aelodaeth o Gyngor Chwaraeon y Gwasanaeth Sifil ac adolygu'r 'Canllaw Cyflogaeth' er mwyn sicrhau eglurder ynghylch tâl adeg penodi
- hyrwyddo cysondeb wrth gymhwyso rheoli perfformiad drwy wiriadau cysondeb a chyfarfodydd dilysu
- parhau â dulliau cyfathrebu amrywiol, gan gynnwys diweddariadau rheolaidd ar gyfer arolygwyr yn Wythnos Datblygiad Proffesiynol, cyfleu newidiadau diweddar i staff gwasanaethau corfforaethol mewn diweddariadau Gwasanaethau Corfforaethol, rhaeadru cofnodion ac adborth gan reolwyr i aelodau tîm a pharhau i gyfleu newidiadau arwyddocaol, gan gynnwys Trefniadau Arolygu Newydd Estyn a Dyfodol Llwyddiannus

**Ymgynghori â chyflogeion**

Trwy gydol 2015-2016, parhaodd y rheolwyr i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r undebau llafur gan gynnwys fforwm gweithredol Ochr yr Undebau Llafur/Rheolwyr a fforwm strategol Ochr yr Undebau Llafur/Rheolwyr.  Mae'r fforwm strategol yn caniatáu ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a barnau strategol ar faterion strategol sy'n effeithio ar gyflogeion a chyflwyno gwasanaethau'n effeithiol, er enghraifft, cyd-drafod cyflog a thelerau ac amodau gwasanaeth.  Mae'r fforwm gweithredol yn cefnogi cyflawni gwaith Estyn ac yn helpu llywio trafodaethau strategol.  Yn ystod cyfarfodydd, gwahoddir yr undebau i gynnig sylwadau ar bolisïau a gweithdrefnau Estyn.  Yn ystod 2015-2016, ymgynghorwyd ar y polisïau a'r gweithdrefnau canlynol, gan gynnwys:

- Polisi Teithio a Chynhaliaeth
- Polisi ac Arweiniad ar y Cyfryngau Cymdeithasol
- Polisi ac Arweiniad ar Weithio'n Hyblyg
- Polisi Diswyddo Gorfodol
- Polisi Rheoli Gwrthdaro Buddiannau

Yn ychwanegol at ymgynghori ag undebau, ymgynghorir â'r holl staff a chaiff asesiadau eu cwblhau ar gyfer pob polisi.

**Safonau'r Gymraeg**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i bennu dyletswyddau ar unigolion i gydymffurfio â safonau statudol yn ymwneud â'r Gymraeg.  Mae'r safonau yn disodli'r system cynlluniau iaith Gymraeg a sefydlwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

**DP 17**

Yn ystod 2015-2016, fe wnaethom hyrwyddo a chefnogi dwyieithrwydd trwy weithredu ein Cynllun iaith Gymraeg a gweithiom tuag at fodloni'r safonau statudol a bennwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Gwnaethom gynnydd da o ran datblygu ein gwasanaethau Cymraeg, er bod gofynion o fewn y safonau nad oeddem wedi mynd i'r afael â nhw yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'n fater o ddatblygu ein systemau a'n harfer yn Estyn, fodd bynnag, yn hytrach na gwneud newidiadau helaeth.

**Sylwadau, cwynion a cheisiadau am wybodaeth**

Fel sefydliad, rydym yn cymryd pob sylw a chwyn o ddifrif a byddwn yn ymateb i bob cwyn yn llawn, yn deg ac mor gyflym â phosibl. Yn 2015-2016, fe wnaethom ddelio â 3 cwyn ffurfiol, ac ymatebwyd i bob un ohonynt o fewn ein graddfa amser darged, sef 20 diwrnod gwaith.

Hefyd, mae gan Estyn ddyletswydd statudol i ymateb i unrhyw geisiadau am wybodaeth a wnaed o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data mewn modd amserol. Yn 2015-2016, fe wnaethom ymateb i 19 o geisiadau am wybodaeth a wnaed o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Cwblhawyd pob un ohonynt o fewn y targed o 20 diwrnod gwaith. Yn ystod yr un cyfnod, ymatebom i 40 o geisiadau am wybodaeth a wnaed o dan y Ddeddf Diogelu Data. Eto, cwblhawyd pob un ohonynt o fewn y targed o 40 diwrnod calendr o dderbyn tystiolaeth o adnabyddiaeth.

Er mwyn sicrhau tryloywder, cyhoeddwn Sylwadau, cwynion a cheisiadau am wybodaeth ar ein gwefan.

**Llywodraethu**

Mae ein Fframwaith llywodraethu o Fyrddau, Pwyllgorau a Grwpiau yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol yn ogystal â sefydliad effeithlon sy'n cael ei redeg yn dda, yn atebol i'n staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Mae manylion pellach am ein proses lywodraethu, yn cynnwys deilliannau'r rhaglen o archwiliadau mewnol, wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu.

Yn unol â deddfwriaeth, fe wnaethom gynhyrchu a chyhoeddi Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-2016. Cafodd ein cynllun ar gyfer 2016-2017 ei gymeradwyo gan y Prif Weinidog yn Ebrill 2016 ac mae ar gael ar ein gwefan yma.

**DP 12**

**Uchafbwyntiau perfformiad ariannol** [1]

Mae arbedion o ryw £1 filiwn yn erbyn cyllideb adnoddau o £11.664 miliwn yn adlewyrchu: gostyngiadau ar draws ein costau gweinyddu a chostau rhedeg eraill o ryw £100,000; dibrisiant heb ei ddefnyddio o £294,000 (mae dibrisiant yn gyllideb wedi'i chlustnodi ac ni ellir ei adleoli); gostyngiad mewn Gwariant rhaglenni o ryw £100,000, a thanwariant o ryw £500,000 yn erbyn ein dyraniad adnoddau ar gyfer staffio.


[1] Mae Adran 3 yn darparu'r datganiadau ariannol a nodiadau i'r cyfrifon.

Mae ein gwariant Rhaglenni yn ymwneud yn bennaf â chost hyfforddi a chontractio gydag Arolygwyr Ychwanegol (AY) ac Arolygwyr Cymheiriaid (AC). Mae costau arolygu cyffredinol yn cynnwys cost cyfieithu adroddiadau arolygu i'r Gymraeg. Roedd gwariant rhaglenni yn 2015-2016 yn is nag yn y flwyddyn flaenorol yn unol â'r gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn nifer yr arolygiadau craidd.

Mae'r arbedion yn erbyn y gyllideb staff yn bennaf yn sgil yr oediad amser o ran staff yn gallu ymgymryd â swyddi a adawyd yn wag ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol, a swyddi gweigion eraill a gododd hefyd yn sgil ymadawyr yn y flwyddyn gyfredol. Er mwyn lleihau costau symudodd Estyn at un pwynt recriwtio (gwanwyn) ar gyfer staff arolygu; ymgymerodd cnewyllyn o naw aelod staff arolygu parhaol newydd â'u swyddi ym Medi 2015. Er mwyn cyflawni ein rhaglen o arolygiadau a gwaith arall, rydym wedi pennu trothwy ar gyfer nifer yr AEM parhaol sydd eu hangen ac mae disgwyl i wariant ar gostau staff gynyddu yn 2016-2017 un unol â'r gyllideb a gyhoeddwyd yn ein Cynllun Blynyddol 2016-2017.

Yn Awst 2015, fe wnaeth Estyn gysgodi'r dyfarniad cyflog a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei staff yn Ebrill 2015. Er gwaethaf cynnydd mewn cyfraddau cyflogau, a gyda niferoedd staffio cyffredinol yn aros fwy neu lai yr un fath â'r flwyddyn flaenorol, roedd cyfanswm y gwariant ar staff yn is na'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, un amrywiant arwyddocaol rhwng blynyddoedd yw ein bod, yn 2014-2015, wedi gwario £238,000 mewn perthynas â chostau ymadael yn gynnar ar gyfer pedwar aelod o staff a adawodd Estyn ar ddiwedd Mawrth 2016 er mwyn hwyluso ail-gydbwyso ein medrau arolygu mewnol. Yn unol â blynyddoedd blaenorol, parhaom i gyflogi secondeion o'r sectorau addysg i weithio gyda ni fel Arolygwyr Ychwanegol; mae hyn wedi darparu cymorth hanfodol i gyflawni ein rhaglen waeth helaeth. Mae hefyd wedi cynnig hyblygrwydd o ran cyllideb, h.y. osgoi gor-ymrwymo i wariant tymor hir ar adeg pan fo ansicrwydd ynghylch cyllid y dyfodol, ac wedi hwyluso trosglwyddo medrau a gwybodaeth i helpu cryfhau gallu ar draws darparwyr addysg.

Mae'r graff canlynol yn dangos y cyfanswm alldro adnoddau am y tair blynedd diwethaf ac yn dangos ymrwymiad Estyn i dorri gwariant yn ystod cyfnod parhaus o gyni yn y sector cyhoeddus.






Yn 2015-2016, defnyddiom £214,000 o’r £281,000 o gyllid cyfalaf a ddyrannwyd i ni gan Lywodraeth Cymru.  Defnyddiwyd y rhan helaethaf o’r gwariant hwn i adnewyddu’r offer TG hanfodol a ddefnyddir gan ein harolygwyr.


Mae’r Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2016 yn dangos rhwymedigaethau net o £181,000 (2014-2015: £508,000). Mae’n arferol i Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol Estyn ddangos sefyllfa o ddiffyg ar ddiwedd blwyddyn ariannol oherwydd y lefel uchel o symiau taladwy.  Mae’r symiau taladwy yn ganlyniad arferol trefniadau Estyn i ddarparu adnoddau Arolygwyr Cymheiriaid, Arolygwyr Lleyg ac Arolygwyr Ychwanegol (gan gynnwys secondeion) ar gyfer arolygiadau, ac maent yn deillio o amseriad derbyn yr anfoneb.

Yn ystod 2016-2017, bydd Estyn yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fodloni pob un o’r rhwymedigaethau uchod yn unol â’r sail ‘busnes gweithredol’ a fabwysiadwyd ar gyfer paratoi’r datganiadau ariannol hyn.

# Cyfanswm Gwariant ar Draws Yr Holl Benawdau Cyllideb ar gyfer 2015-2016






[2] Nid yw'n cynnwys Gwariant Cyfalaf

**Egwyddor cyflawni 2: Cydweithio gydag arolygiaethau eraill i gefnogi gwelliant**

Mae Estyn wedi parhau i sicrhau bod ein cydweithio a'n cydweithredu yn cael ei lywio gan weledigaeth a diben cyffredin a gytunwyd rhwng y cyrff AARh yng Nghymru a'r DU drwy Arolygu Cymru a'r fforwm Penaethiaid Arolygiaethau'r DU.

**DP 19**

Rydym wedi cefnogi rôl Rheolwr Prosiect Arolygu Cymru drwy ein cyfraniad ariannol at y swydd. Rydym hefyd wedi parhau i ddatblygu dulliau o rannu gwybodaeth a dealltwriaeth rhwng Estyn a chyrff AARh eraill er mwyn helpu sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n weithredol ac yn brydlon a'i defnyddio i gefnogi gwella gwasanaethau, llywio llunio polisïau a chryfhau atebolrwydd cyhoeddus, fel cyd-seminar AARh ar 4 Chwefror 2016. Dyma ddolen at Raglen y Cyd-arolygiaethau.

Fe wnaethom gydlynu ein gweithgareddau arolygu, lle bo'n briodol, â gweithgareddau'r cyrff AARh eraill fel eu bod yn arwain at raglenni gwaith cymesur a oedd yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau bod risgiau a phryderon allweddol yn cael eu harchwilio, fel y cylch gwaith ar gonsortia rhanbarthol a chynnwys arolygwyr Swyddfa Archwilio Cymru ar dimau Estyn ar gyfer arolygu consortia rhanbarthol.

Cyfrannodd Estyn at waith Llywodraeth Cymru ar ei Phapur Gwyn ar Ddatganoli, Democratiaeth a Chyflawni - Diwygio Llywodraeth Leol a chyfrannom at Fwrdd Prosiect Arolygu AGGCC ar eu gwaith yn datblygu fframwaith barnau ar gyfer arolygu gofal a gwasanaethau cymdeithasol. Fe wnaethom sicrhau bod arolygiadau o ysgolion a cholegau sydd â darpariaeth breswyl yn cael eu cydlynu'n effeithiol gan Estyn ac AGGCC.

Gweithiom gyda Chynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau (SICI) ar ddatblygu cynlluniau i Estyn gynnal gweithdy rhyngwladol yng Nghaerdydd yn Ebrill 2016. Mae staff wedi mynychu gweithdai SICI yn Serbia, y Ffindir a Norwy a gwnaed cyflwyniadau ganddynt yng nghyfarfodydd arolygiaethau addysg gwledydd Prydain ym Manceinion a Llundain.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gydag Education Scotland, ETI (Gogledd Iwerddon) ac Ofsted i rannu gwersi a ddysgwyd ynglŷn â dulliau newydd o arolygu. Gweithiom yn agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a Chyngor y Gweithlu Addysg i rannu gwybodaeth a thrafod materion o ddiddordeb cyffredin. Parhaom i gysylltu â'r Swyddfa Gartref ynghylch materion yn ymwneud â goruchwyliaeth addysgol darparwyr sy'n dymuno dod yn noddwr Haen 4. Cyfrannom hefyd at yr arolygiadau o ddau dîm troseddau ieuenctid, dan arweiniad Arolygiaeth Prawf EM, dau garchar dan arweiniad Arolygiaeth Carchardai EM ac un uned ddiogel pobl ifanc dan arweiniad AGGCC.

# Adran 2: Yr Adroddiad Atebolrwydd

## 2.1 Adroddiad llywodraethu corfforaethol

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae **Bwrdd Gweithredol**, yn cynnwys aelodau gweithredol (PAEM a chyfarwyddwyr strategol), yn cefnogi ac yn cynorthwyo PAEM i arwain a rheoli Estyn.

Mae **Bwrdd Strategaeth**, yn cynnwys aelodau gweithredol ac aelodau anweithredol (cyfarwyddwyr anweithredol), yn pennu ac yn monitro agenda strategol Estyn. Mae gan y Bwrdd Strategaeth ddau is-bwyllgor: Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Estyn a'r Pwyllgor Cyflogau.

Gellir gweld cofnod llawn o aelodaeth a phresenoldeb y Bwrdd / Pwyllgor Strategaeth ar ein gwefan.

### Buddiannau arwyddocaol a ddelir gan aelodau

Mae Estyn yn cynnal cofrestr buddiannau ar gyfer aelodau'r Bwrdd. Caiff datganiadau eu gwneud hefyd gan yr holl gyflogeion parhaol, secondeion a staff dros dro yn unol â'n polisi rheoli gwrthdaro buddiannau posibl.

Nid oes gan unrhyw aelod o'r Bwrdd swydd cyfarwyddwr nac unrhyw fuddiannau arwyddocaol arall a allai wrthdaro â'u cyfrifoldeb rheoli.

### Digwyddiadau'n ymwneud â data personol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol i adrodd amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn.

Yn unol ag arfer dda, mae gan Estyn swyddog lefel bwrdd sydd wedi'i ddynodin Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth sydd yn gyfrifol am siarter gwybodaeth Estyn.

Trwy gydol 2015-2016, fe wnaeth Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Estyn fonitro ac adolygu trefniadau llywodraethu gwybodaeth ar draws y sefydliad ac adolygu a diweddaru polisïau o dan fframwaith llywodraethu gwybodaeth Estyn. Rhoddodd archwiliad mewnol o Lywodraethu Gwybodaeth a gynhaliwyd yn Ionawr 2016 sicrwydd sylweddol fod rheolaethau dros brosesau llywodraethu gwybodaeth wedi'u cynllunio'n addas; cafodd rhai awgrymiadau ar gyfer gwella eu nodi, ac maent yn cael eu dwyn ymlaen.

### Polisi talu

Yn 2015-2016, fe wnaethom weithio i gydymffurfio â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, i dalu anfonebau diamheuol cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf. Datgenir y polisi hwn yn y Telerau ac Amodau ar

gyfer Contractau Estyn. Cyflawnwyd hyn ar gyfer 100% o'r holl gyfryw daliadau a wnaed yn 2015-2016 (2014-2015: 99.2% a 2013-2014: 99.4%).

**DP 15**

**Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu**

**DP 13** **DP 14**

O dan Atodlen 6, paragraff 5(2) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae Trysorlys EM wedi rhoi cyfarwyddyd i Estyn baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn rhoi manylion yr adnoddau a gafwyd, a gadwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan Estyn yn ystod y flwyddyn. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Estyn ac o alldro net ei adnoddau, sefyllfa ariannol, newidiadau i ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion 'Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth' ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM yn unol â pharagraff 5(2) Atodlen 6 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barnau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y nodwyd yn 'Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth', a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon
- pharatoi'r cyfrifon ar sail 'busnes gweithredol'

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn Swyddog Cyfrifyddu Estyn. Caiff cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros gywirdeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Estyn, eu hamlinellu ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a ddosbarthwyd gan y Trysorlys ac a gyhoeddwyd yn Cyfrifon y Llywodraeth (Y Llyfrfa).

## Y datganiad llywodraethu

### Cyflwyniad

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Estyn, gan ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd i mi.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rwyf wedi cynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu busnes Estyn. Mae gan Estyn system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso cyflawni swyddogaethau Estyn yn effeithiol ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Caiff egwyddorion **Corporate governance in central government departments: Code of good practice 2011 (Y Cod),** eu hadlewyrchu yn nhrefniadau llywodraethu Estyn, yng nghyd-destun amgylchiadau Estyn fel adran anweinidogol.

Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol hwn yn amlinellu sut mae llywodraethu da wedi'i gynnal yn Estyn ac yn esbonio'r prif heriau sy'n wynebu'r sefydliad a sut mae'r heriau hyn yn cael eu rheoli.

### Y fframwaith llywodraethu

Rwyf wedi sefydlu fframwaith llywodraethu sy'n disgrifio'r systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli Estyn, ac a ddefnyddiwn i fonitro cyflawni ein hamcanion strategol a'n hymgysylltiad â'n rhanddeiliaid. Mae fframwaith llywodraethu corfforaethol Estyn wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Mae'r diagram yn Atodiad 1 y datganiad hwn yn dangos yn gryno ystod a lefel y sicrwyddau sy'n sail i drefniadau llywodraethu Estyn. Amlinellir datganiad clir o ddiben a gweledigaeth Estyn ar ein gwefan ac yn ein Cynllun Blynyddol. Mae'r Cynllun Blynyddol yn amlinellu gweledigaeth gyffredinol Estyn ac mae'n nodi ei brif nodau ac amcanion. Mae gwybodaeth am berfformiad a chyflawniad Estyn yn erbyn y Cynllun Blynyddol wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan hefyd.

Caiff y gwaith o oruchwylio Estyn ei arfer trwy'r Bwrdd Strategaeth a'i is-bwyllgorau (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cyflogau). Yn ystod 2015-2016, cyfarfu'r Bwrdd Strategaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bob chwarter ac roedd pob un o'r aelodau yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd. Yn ail chwarter y flwyddyn, cafwyd trosglwyddo esmwyth gan gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a oedd yn ymadael, sef Haydn Edwards, i gyfarwyddwr anweithredol profiadol iawn arall yn Estyn, sef Rheon Tomos. Yn y chwarter hwn hefyd, cafodd dau aelod arall mewn gwasanaeth o'r pwyllgor, Judith Fabian (aelod cyfetholedig) ac Arwel Thomas, eu penodi a'u hail-benodi yn y drefn honno fel cyfarwyddwyr anweithredol. Mae'r parhad a ddarperir gan y penodiadau uchod wedi sicrhau bod Bwrdd Strategaeth Estyn wedi cael cyngor allanol cadarn ar faterion strategol a rheoli risg fel rhan o rôl y cyfarwyddwr anweithredol i herio a chefnogi gweithrediaeth Estyn.

Roedd y meysydd adolygu a thrafod allweddol yr aeth y Bwrdd Strategaeth i'r afael â nhw yn ystod 2015-2016 yn cynnwys:

- Cynllun Blynyddol Estyn, gan ymgorffori Dangosyddion Perfformiad Allweddol Estyn
- Adroddiad Blynyddol PAEM
- Cyfraniad Estyn at fentrau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys diwygio'r Cwricwlwm a'r Fargen Newydd
- Diwygiadau i gylch arolygiadau Estyn a datblygu trefniadau'r dyfodol, gan gynnwys newidiadau i fframwaith arolygu Estyn

Daw pob cyfarfod i ben gyda hunanarfarniad o effeithiolrwydd y cyfarfod; mae cyfarwyddwyr anweithredol wedi cadarnhau eu bod yn fodlon â'r trafodion ac ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno a'i thrafod mewn cyfarfodydd, eu bod yn cael mewnbwn priodol i'r agenda a chyfle digonol i godi unrhyw bryderon. Mae'r Bwrdd Strategaeth yn fodlon bod trefniadau Estyn ar gyfer chwythu'r chwiban yn effeithiol; ni chodwyd unrhyw achosion chwythu'r chwiban yn 2015-2016. Cafodd Polisi Chwythu'r Chwiban Estyn ei adolygu yn ystod y flwyddyn a'i ailgyhoeddi yn Awst 2015, ochr yn ochr â diweddariadau i'r polisïau Rheoli Risg a Gwrth-dwyll a Gwrth-lwgrwobrwyo, gan atgoffa ynglŷn â Chod y Gwasanaeth Sifil a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan holl staff Estyn.

O ganlyniad i newidiadau strwythurol o fewn Llywodraeth Cymru, cafodd rôl Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar gyfer Estyn ei throsglwyddo i Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredol GIG Cymru. Mae'r trefniant llywodraethu cyswllt yn helpu i gynnal annibyniaeth Estyn mewn materion addysg a hyfforddiant, er bod y cysylltiadau agos hynny â'r Adran Addysg a Sgiliau yn parhau i ddatblygu dull strategol a chydlynus ar faterion allweddol fel datblygu adolygiadau thematig a gwaith cynghori arall. Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu cyfarwyddwyr anweithredol gyda Julie Rogers, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, a'i rôl yw cynrychioli Mr Goodall yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Estyn yn Llywodraeth Cymru. Rhoddodd y cyfarfod gyfle i rannu barnau ar brosesau llywodraethu a'r materion a'r heriau allweddol a wynebir gan Estyn.

### Archwilio ac effaith

Caiff adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei gyhoeddi ar wefan Estyn; mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rywfaint o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ac yn gwneud sylwadau ar yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd ac yr adroddwyd amdanynt i'r pwyllgor. Mae adroddiad y Cadeirydd ar gyfer 2015-2016 yn rhoi sicrwyddau ynghylch ansawdd y gwaith archwilio ac effeithiolrwydd y pwyllgor. Parhaodd y pwyllgor yn fodlon bod trefniadau priodol gan Estyn ar gyfer llywodraethu a bod ganddo bolisi rheoli risg effeithiol a oruchwylir gan y Bwrdd Strategaeth. Mae cyfarwyddwyr anweithredol yn gwasanaethu ar y Bwrdd Strategaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Yn ail chwarter y flwyddyn, defnyddiwyd proses helaeth i benodi RSM fel darparwr gwasanaeth archwilio mewnol newydd Estyn. Mae'r penodiad wedi sicrhau parhad gwasanaeth proffesiynol lefel uchel, fel y darparwyd gan yr archwilwyr blaenorol (Deloitte) ac mae wedi cynnig safbwynt gwahanol ac ymagwedd 'ffres' at

weithgareddau archwilio.  Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gymeradwyo’r rhaglen archwiliadau blynyddol ar gyfer 2015-2016, gan barhau i bennu meysydd cwmpasu o fewn rhaglen archwilio tair blynedd.  Cafodd cynnydd yn erbyn y cynllun archwilio ei fonitro, ac ar ddiwedd y flwyddyn ystyriwyd adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol.  Cynghorodd yr adroddiad hwn ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, a rhoddodd farn gyffredinol ar yr amgylchedd rheoli mewnol i’w hystyried gan aelodau’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.  Fe wnaeth canlyniad y gwaith archwilio mewnol lywio barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd cyffredinol fframwaith rheoli mewnol Estyn; *‘mae gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol’.*  Arweiniodd gwaith a gwblhawyd gan archwilwyr mewnol Estyn yn ystod 2016-2016 at adroddiadau a oedd yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella - dywedodd yr Adroddiad archwilio mewnol blynyddol y canlynol: *‘arweiniodd yr holl waith sicrwydd yr ymgymerwyd ag ef yn ystod y flwyddyn at farn gadarnhaol’.*  Adolygwyd pob un o’r adroddiadau archwilio mewnol a thrafodwyd y prif faterion yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac roedd yn fodlon bod yr holl gamau rheoli wedi’u gweithredu neu eu cynllunio.  Yn ogystal â’r rhaglen archwilio mewnol a adroddir yn Nhabl 1 isod, cynhaliodd yr Archwilwyr Mewnol raglen o ‘hapwiriadau’ cydymffurfio dirybudd hefyd a dilysiadau o Hawliadau Treuliau - ystyriwyd bod cydymffurfiaeth gyffredinol yn dda ac ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol yn ystod 2015-2016.

**Tabl 1**
**2015-2016 rhaglen archwilio mewnol**

| **Maes archwilio mewnol** | **Lefel sicrwydd** | **Nifer y camau gwella a gytunwyd gan y rheolwyr** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Blaenoriaeth uchel** | **Blaenoriaeth ganolig** | **Blaenoriaeth isel** | **Cyfanswm** |
| Llywodraethu Gwybodaeth | Sylweddol | 0 | 2 | 3 | **5** |
| Rheolaethau Ariannol Allweddol – Y Gyflogres | Sylweddol | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Rheolaethau Ariannol Allweddol – Cyllidebol | Sylweddol | 0 | 0 | 2 | **2** |
| Sicrhau Ansawdd Arolygiadau | Sylweddol | 0 | 0 | 3 | **3** |
| Llywodraethu, Rheoli Risg a Sicrwydd Risg | Sylweddol | 0 | 1 | 3 | **4** |
| Asedau a Rhestri Eiddo | Rhesymol | 0 | 0 | 7 | **7** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | **3** | **18** | **21** |
| Rheoli Prosiectau | Amh. Archwiliad cynghorol | | | | |

Cyfarfu Pwyllgor Cyflogau Estyn deirgwaith (roedd yr holl aelodau’n bresennol) yn ystod 2015-2016 i ystyried perfformiad a chyflogau uwch aelodau staff Estyn, gan gynnwys PAEM.  Rhoddodd y pwyllgor hwn gyngor hefyd ynglŷn â chynigion ar gyfer

dyfarniad cyflog staff Estyn nad ydynt yn uwch aelodau staff; roedd y dyfarniad cyflog hwn yn weithredol o 1 Awst 2015, yn cysgodi'r dyfarniad a wnaed i staff Llywodraeth Cymru, ac fe'i awdurdodwyd yn briodol gan y Prif Weinidog.

Mae Estyn wedi sicrhau cydymffurfio â'r holl lythyrau 'Annwyl Swyddog Cyfrifyddu' (ASC) yng Nghymru; er enghraifft, mae Estyn wedi cael sicrwyddau a thystiolaeth briodol i gadarnhau bod rhwymedigaethau treth staff nad ydynt ar gyflogres (Estyn), h.y. staff asiantaeth a secondeion, wedi'u bodloni'n briodol, yn unol â DAO (Cymru) 1/13. Yn Chwefror 2016, cyhoeddwyd DAO (Cymru) 01/16 ochr yn ochr â diweddariad i 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' – mae Estyn, yn briodol, wedi dilyn yr arweiniad diweddaraf o ran sicrhau rheoleidd-dra a phriodoldeb wrth wario adnoddau cyhoeddus.

Mae Estyn yn cynnal cofrestr buddiannau ar gyfer aelodau'r Bwrdd Strategaeth, ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan. Nid oedd gan unrhyw aelod o'r Bwrdd Strategaeth swydd cyfarwyddwr nac unrhyw fuddiant arwyddocaol arall a oedd yn gwrthdaro â'i gyfrifoldebau yn Estyn. Mae cofrestr buddiannau a Chofrestr Rhoddion a Lletygarwch yn cael ei chynnal ar gyfer yr holl gyflogeion parhaol, secondeion a staff dros dro.

## Rheoli risg

Mae system rheoli risg Estyn wedi'i seilio ar broses barhaus a luniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau rhag cyflawni nodau ac amcanion Estyn, ac arfarnu tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hyn a'r effaith pe cânt eu gwireddu. Ar gyfer 2015-2016, parhawyd i gadw cofrestrau risg ar lefel strategol gan y Bwrdd Gweithredol, ar lefel gorfforaethol gan Grŵp Cyfarwyddwyr Estyn, ac ar lefelau gweithredol gan weithgorau, timau swyddogaethol a thimau prosiect. Mae gan bob risg berchennog unigol sy'n gyfrifol am fanylu ar y rheolaethau sydd ar waith a'u cofnodi, ynghyd â chamau gweithredu pellach a gynlluniwyd i liniaru'r risg – ac mae proses gynyddu ar waith i godi risgiau i lefel reolaeth uwch.

Roedd datganiadau sicrwydd blynyddol ar gyfer 2015-2016 a gwblhawyd gan bob un o gyfarwyddwyr Estyn yn rhoi cadarnhad nad oedd unrhyw bryderon mawr a bod camau wedi'u cymryd lle nodwyd mân faterion yn ymwneud â rheolaeth; nid adroddwyd ar unrhyw achosion o dorri diogelwch nac unrhyw achosion o golli data personol yn ystod 2015-2016. Aeth yr archwiliad mewnol o lywodraethu ati i adolygu'r holl ddatganiadau sicrwydd er mwyn archwilio'r dystiolaeth ategol y seiliwyd y datganiadau hyn arnynt, a gwnaeth un argymhelliad bach i wella fformat y datganiad. Cafodd Estyn sicrwydd gan Lywodraeth Cymru hefyd mewn perthynas â'r gyflogres a'r gwasanaethau adnoddau dynol y mae'n eu darparu i Estyn o dan gytundeb lefel gwasanaeth ffurfiol. Yn y cyfarfod adolygu blynyddol i drafod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth, cododd Estyn rai pryderon gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â nifer y camgymeriadau cyflogres eleni, ond rwy'n fodlon y cymerwyd camau cywiro angenrheidiol, a bod hynny'n parhau.

Mae'r risg fwyaf arwyddocaol y mae Estyn yn dal i'w rheoli bob blwyddyn yn ymwneud â darparu adnoddau ar gyfer gweithgareddau craidd a ffrydiau gwaith newydd yng nghyd-destun llai o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae goblygiadau toriadau i'r gyllideb wedi'u cyfleu'n glir i gydweithwyr perthnasol yn Llywodraeth

Cymru, ac mae cynllunio ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol, gan gynnwys cynigion ar gyfer newidiadau i drefniadau arolygu Estyn, yn seiliedig ar fod yna ddiffyg cyllid ychwanegol yn y dyfodol agos.

Mae nifer o heriau eraill sydd wedi parhau o'r flwyddyn flaenorol ac a fydd yn parhau trwy gydol y flwyddyn nesaf, yn cynnwys:

- **Cyflawni ffrydiau gwaith newydd** - yn cynnwys cynrychiolaeth ar weithgorau ychwanegol yn deillio o adolygiadau wedi'u cychwyn gan Lywodraeth Cymru, fel Donaldson
- **Cyflawni arbedion effeithlonrwydd parhaus er mwyn bodloni gostyngiadau sy'n parhau yn y gyllideb** – mae'r Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Strategaeth wedi parhau, a byddant yn parhau, i adolygu'r ymagwedd at senarios cyllideb posibl yn rheolaidd ac asesu effaith bosibl unrhyw ostyngiadau yng ngweithrediadau Estyn a chyflawni ei amcanion
- **Datblygu trefniadau i sicrhau bod gofynion newydd safonau'r Gymraeg yn cael eu bodloni** – asesu'r effaith mewn perthynas â'r modd y mae Estyn yn cyflawni ei waith a rhoi camau gweithredu priodol ar waith i liniaru'r risg o fethu bodloni'r safonau, gan gynnwys darparu cyfleoedd hyfforddiant Cymraeg ychwanegol ar gyfer staff Estyn a datblygu systemau a phrosesau mewnol dwyieithog
- **Gwella gwaith ar y cyd a wneir gydag AGGCC** – datblygu trefniadau a chynnal peilot o arolygiadau ar y cyd o'r Blynyddoedd Cynnar mewn meithrinfeydd nas cynhelir
- **Datblygu fframwaith arolygu newydd Estyn a chefnogi prosesau a systemau** – dwyn gwaith Prosiect y Fframwaith Arolygu Newydd (FfAN) yn ei flaen yn ychwanegol at gyflawni'r rhaglen bresennol o arolygiadau, cyngor a gwaith gwella


**Materion llywodraethu arwyddocaol**

Ni nodwyd unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â fframwaith llywodraethu cyffredinol Estyn. Edrychodd yr adolygiadau archwilio mewnol ar feysydd sylweddol o fusnes Estyn, a da yw adrodd na nodwyd bod unrhyw feysydd sylweddol o wendidau rheolaeth ac nid oedd unrhyw argymhellion blaenoriaeth uchel a oedd yn mynnu gweithredu gan y rheolwyr. Rwy'n fodlon bod cyfleoedd penodol i wella llywodraethu a rheolaethau mewnol a nodwyd fel rhan o brosesau sicrhau Estyn wedi'u hadrodd yn briodol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'u rhoi ar waith gan y rheolwyr. Trafodwyd cydrannau craffu a sicrwydd allanol Estyn gan y Bwrdd Strategaeth yn ystod y flwyddyn a gwnaeth addasiadau i'r fframwaith a ddangosir ar dudalen 44.

Gan i mi gael fy mhenodi i rôl Swyddog Cyfrifyddu ar 1 Mehefin 2015, nid wyf wedi bod yn fy swydd am y flwyddyn ariannol lawn y mae a wnelo'r datganiad hwn â hi, ond oherwydd amseru'r Cyfrifon blynyddol, hwn, serch hynny, yw'r ail Ddatganiad Llywodraethu i mi fod yn gyfrifol amdano. Rwyf wedi cael cymorth da yn fy rôl fel Swyddog Cyfrifyddu gan gydweithwyr, gan gynnwys y staff hynny a benodwyd dros dro i swyddi cyfarwyddwyr er mwyn darparu parhad a chyfle i mi fyfyrio ar strwythurau rheoli cyn recriwtio i swyddi parhaol.

Yn 2015-2016, credaf fod Estyn wedi parhau yn lle da i weithio ynddo, barn a amlygir gan ganlyniadau cadarnhaol parhaus Arolwg Pobl blynyddol y Gwasanaeth Sifil. Unwaith eto, mae'n arbennig o foddhaol adrodd am lefel uchel o ymgysylltiad cadarnhaol â staff, a chredaf fod hynny'n helpu i osod sylfaen i lywodraethu da ac mae'n arwydd o ymrwymiad staff i werthoedd Estyn a chod y gwasanaeth sifil.

**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu
7 Gorffennaf 2016



Trefniadau fframwaith sicrwydd a chraffu Estyn
Craffwyr Allanol
Cwestiynau Gweinidogion LlC
Sesiynau Llawn Senedd CCC
Pwyllgorau CCC
Materion/Pryderon a godir gan ACau/ASau
Cyfarfodydd rhwng y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phenaethiaid Arolygiaethau
Rhaglen Arolygu Cymru
Rhaglen Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Estyn
Fframwaith Rheoli Estyn
Amcanion strategol a gweithredoedd ategol (cyhoeddwyd yn y Cynllun Blynyddol)
Prosesau Cynllunio Busnes Strategol a Rhaglennu Gwaith
System Rheoli Perfformiad yn Barhaus
Gweithdrefnau pennu cyllideb a rheoli cyllideb (Llawlyfr Cyllid)
Rheoli Prosiectau a Rhaglenni (e.e. Adroddiad Blynyddol)
Rheoli Risg
Polisi Gwrth-dwyll
Fframwaith Llywodraethu
Cytundebau partneriaeth a Memoranda Cyd-ddealltwriaeth
Polisïau, gweithdrefnau a chodau ymddygiad (yn gyson â modelau'r Gwasanaeth Sifil)
Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Swyddog Cyfrifyddu a Byrddau Gweithredol/ Strategol
Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Adolygu a monitro effeithiolrwydd Llywodraethu, Rheoli Risg ac adolygu'n fewnol a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Arweiniad Canolog
Arweiniad Trysorlys EM
DAOau Llywodraeth Cymru
Cod Llywodraethu Corfforaethol
Rheoli Arian Cyhoeddus (Cymru)
Arweiniad Rheoli Risg y Llywodraeth
Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus
Polisïau, cynlluniau gweithredol a chofrestrau risg Estyn
Grŵp Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am arweinyddiaeth gorfforaethol a chyflawni gweithgareddau gweithredol. Mae'n cynnal y fframwaith sicrwydd ac yn darparu tystiolaeth ategol i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Elfennau'r Map Sicrwydd
Llinell amddiffyn 1af
Datganiadau sicrwydd gan Gyfarwyddwyr / Cyfarwyddwyr Cynorthwyol
Sicrwydd cyflawni gweithredol, e.e. Diweddariadau Misol i Grwpiau
Rheoli Perfformiad yn Barhaus
Adrodd ar DP/ Gwybodaeth Reoli, yn cynnwys Holiaduron Cyn-arolygiad, Adborth a Chwynion
2il linell amddiffyn
Trosolwg y Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Strategol
Grŵp Polisi Arolygu a Chydymffurfio
Sicrwydd (bwrdd) Prosiect AR
Adolygiadau o gofnodion gweithredu (ac adrodd drwy SharePoint)
Adolygiadau o'r cofrestrau risgiau
Sicrwydd rheolaeth ariannol (adroddiadau IRIS)
Sicrhau Ansawdd Arolygiadau (SAAr) a Sicrhau Ansawdd Adroddiadau (SAAd)
Sicrwydd diogelwch gwybodaeth (adolygiadau cydymffurfio Grŵp IG)
Sicrwyddau 3ydd Parti (trefniadau contractiol)
3edd llinell amddiffyn
Archwilwyr mewnol (adroddiadau)
Archwilwyr Mewnol (hapwiriadau)
Adolygiadau allanol, e.e. gwiriadau cydymffurfio CSC
Achrediadau, e.e. Safon Iechyd Corfforaethol, BmP, y Ddraig Werdd, ISO
Sicrwyddau eraill
Archwilwyr Allanol
Gwaith partneriaeth a meincnodi (Arolygiaethau'r DU a SICI)

## 2.2 Adroddiad ar gyflogau a staff

Pennir cyflog Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan baragraff 3 Atodlen 2 Deddf Addysg 2005.

Ar gyfer uwch aelodau staff parhaol eraill y Bwrdd, pennwyd eu cyflog gan Bwyllgor Cyflogau Estyn, sy'n cynnwys y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a thri chyfarwyddwr anweithredol, yn unol ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet ar gyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Wrth lunio'i argymhellion, mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl fedrus a chymwysedig addas i arfer eu cyfrifoldebau gwahanol
- gwybodaeth feincnodi sydd ar gael gan Swyddfa'r Cabinet ac adrannau eraill y Llywodraeth, gan gynnwys y rhai sydd agosaf at Estyn o ran lleoliad a math o waith
- y cyllid sydd ar gael i'r adran a'r cyngor sydd ar gael yn flynyddol gan Swyddfa'r Cabinet
- polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus a rôl rheoli perfformiad wrth sicrhau a chydnabod gwerth i'r sefydliad a gwobrwyo cyfraniadau at amcanion busnes ac amcanion corfforaethol


Mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o ran ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.  O ganlyniad i'r Adolygiad Cynhwysfawr diwethaf o Wariant, mae Estyn eisoes wedi lleihau nifer ei swyddi yn yr uwch wasanaeth sifil o bedair i dair, trwy gadw un swydd wag.


Wrth gytuno ar godiadau cyflog ar gyfer staff unigol, mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn rhoi ystyriaeth benodol i'r meini prawf canlynol:

- twf yr unigolyn o ran gallu
- yr her sy'n gysylltiedig â'r swydd
- hyder ym mherfformiad yr unigolyn yn y dyfodol

Ni thalwyd unrhyw fonysau i staff yr Uwch Wasanaeth Sifil yn 2015-2016.

Yn unol â'r codiad cyflog ar gyfer swyddogion Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru (1 Ebrill 2015), dyfarnwyd codiad cyflog cyfunol o 2% i swyddogion Uwch Wasanaeth Sifil Band 1 Estyn yn effeithiol o 1 Awst 2015 i 31 Mawrth 2017.


Cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi yn ôl categori staff 2014-2015 a 2015-2016
Nifer y staff
70.00
60.00
50.00
40.00
30.00
20.00
10.00
0.00
61.17
59.95
45.52
45.22
13.33
13.26
Rheolwyr a gwasanaethau corfforaethol
Adnodd arolygu AEM
Adnodd arolygu AY cyfnod penodedig /ar secondiad
Categori staff
2014-2015
2015-2016


Cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi
Nifer o staff
60
50
40
30
20
10
0
11.9
2
5.81
0.97
12.5
6.81
4.81
2
2
1.75
1.24
0
6.32
2.88
24.8
26.42
1.97
2.07
0.17
2
Swyddog Gweinyddol
Asiantaeth
Swyddog Gweithredol
Swyddog Gweithredol Uwch
Uwch-swyddog Gweithredol
Gradd 7
Secondai
Gradd 6
Cyfnod Penodedig AY
Uwch Wasanaeth Sifil
Gradd staff
Benyw
Gwryw

Roedd cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| Blwyddyn | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill[4] | Cyfanswm staff |
|---|---|---|---|
| 2015-2016 | 98 | 20 | 118 |
| 2014-2015 | 99 | 21 | 120 |

**Mae cyfraddau Salwch Staff fel a ganlyn:**

| **Prif fesurau staff** | | |
|---|---|---|
| **Mesur** | **2015-2016** | **2014-2015** |
| Cyfradd absenoldeb salwch | 3.6% (a) | 3.6% |
| Cyfran y staff yn cronni absenoldeb salwch | 52% | 52.8% |
| Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul cyflogai | 7.4 diwrnod (b) | 7.5 diwrnod |
| Cyfartaledd y cyfnod absenoldeb | 8.4 diwrnod | 7.3 diwrnod |
| Achlysuron absenoldeb salwch | 110 achlysur | 128 achlysur |

**Noder:** os eithriwn un aelod o staff nad oedd yn cael cyflog yn sgil absenoldeb tymor hir dros y cyfan o 2015-2016, y mesurau hyn fyddai (a) 2.7% (b) 5.4 diwrnod.

**DP 11**

### Contractau gwasanaeth

Gwneir penodiadau i'r Gwasanaeth Sifil yn unol ag Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Egwyddorion yn gofyn am benodi yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored, ond mae hefyd yn cynnwys yr amgylchiadau pan y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae gan y swyddogion y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â hwy swyddi penagored. Byddai terfynu cynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodwyd yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Nodir y rheolau penodi yng Nghod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn:
http://civilservicecommission.independent.gov.uk/

### Hawliau tâl (gan gynnwys cyflog) a phensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl a buddion pensiwn uwch swyddogion Estyn (h.y. aelodau'r Bwrdd).

[4] Mae staff eraill yn cyfeirio at secondeion, staff contract cyfnod penodedig a staff asiantaeth.

## Tâl (cyflog a thaliadau mewn nwyddau) [5]

| | 2015-2016 | | | | | 2014-2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddogion** | **Cyflog £000oedd** | **Tâl am Berfformiad ar Wahân £000oedd** | **Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)** | **Buddion pensiwn i'r £1,000[6] agosaf** | **Cyfanswm £000oedd** | **Cyflog £000oedd** | **Tâl am Berfformiad ar Wahân £000oedd** | **Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)** | **Buddion pensiwn i'r £1,000 agosaf** | **Cyfanswm £000oedd** |
| Meilyr Rowlands Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (1 Mehefin 2015 ymlaen) | **90-95** | **-** | **-** | **311** | **400-405** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Meilyr Rowlands Cyfarwyddwr Strategol (Ebrill a Mai 2015) | **10-15** | **-** | **-** | **-** | **15-20** | **75-80** | **-** | **-** | **19[7]** | **85-90** |
| Ann Keane Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (hyd at 31 Mai 2015) | **15-20** | **-** | **-** | **-** | **15-20** | **110-115** | **-** | **-** | **-** | **110-115** |
| Simon Brown Cyfarwyddwr Strategol | **75-80** | **-** | **-** | **32** | **105-110** | **75-80** | **-** | **-** | **28** | **100-105** |
| Claire Morgan Cyfarwyddwr Strategol Dros Dro (o 1 Mehefin 2015) | **65-70** | **-** | **-** | **26** | **90-95** | **Amh.** | | | | |
| Band Cyfanswm Cyflog y Cyfarwyddwr sy'n derbyn y Cyflog Uchaf | **110-115** | | | | | **110-115** | | | | |
| Cyfanswm canolrifol | **£60,050** | | | | | **£60,050** | | | | |
| Cymhareb gan ddefnyddio pwynt canol y band cyflog | **1.87** | | | | | **1.87** | | | | |
| Ystod cyflogau staff | **£17,200 - £110,000** | | | | | **£17,200 - £112,200** | | | | |

[5] Archwiliwyd
[6] Cyfrifir gwerth buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn x 20) + (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) – (cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn)
[7] Ailddatganwyd o ffigurau 2014-2015 yn sgil diweddariad ôl-weithredol i ddata cyflogau.

### Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; taliadau am berfformiad neu daliadau bonws; goramser; hawliau wedi'u cadw i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n destun trethi'r DU. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau a wnaed gan Estyn ac sydd felly'n cael eu cofnodi yn y cyfrifon hyn.

### Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac sy'n cael eu trin fel tâl trethadwy gan Gyllid a Thollau EM.

### Buddion pensiwn[8]

Buddion pensiwn ar gyfer cyflogeion cyfredol yn y cynllun pensiwn.

| Swyddogion | Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn fel ar 31/3/16 a'r cyfandaliad cysylltiedig £000oedd | Cynnydd gwirioneddol/ (gostyngiad) mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn £000oedd | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/16 £000oedd | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/15 £000oedd | Cynnydd gwirioneddol/ (gostyngiad) mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod £000oedd | Cyfraniad y cyflogwr at y cyfrif pensiwn partneriaeth £100 agosaf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Meilyr Rowlands[9] Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (1 Mehefin 2015 ymlaen) | 45-50 a chyfandaliad o 145-150 | 12.5-15 a chyfandaliad o 40-42.5 | 1,074 | 721[10] | 296 | - |
| Simon Brown Cyfarwyddwr Strategol | 40-45 a chyfandaliad o 70-75 | 0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5 | 902 | 813 | 32 | - |
| Claire Morgan Cyfarwyddwr Strategol Dros Dro (1 Mehefin 2015 ymlaen) | 10-15 | 0-2.5 | 193 | 165 | 1 | - |

[8] archwiliwyd
[9] Mae ffigurau pensiwn fesul unigolyn wedi'u datgan ar gyfer yr holl swyddi a ddaliwyd yn y flwyddyn.
[10] ailddatganwyd

**Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil**

Caiff buddion pensiwn eu darparu drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n gyfwerth ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, fe wnaeth yr holl weision sifil newydd eu penodi a'r mwyafrif o'r rheiny a oedd eisoes mewn gwasanaeth ymuno â chynllun alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cyfranogi ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn cynnwys pedair rhan: 3 yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol yn 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa lawn (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol yn 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu, a thelir cost buddion gan arian y pleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r Ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Fe wnaeth aelodau presennol o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 aros yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheiny a oedd rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS yr holl aelodau sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rheiny â buddion cynharach yn un o'r adrannau cyflog terfynol o'r PCSPS yn cael y buddion hynny wedi'u seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau a ymunodd o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau classic (ac aelodau o alpha a oedd yn aelodau o classic yn syth cyn ymuno ag alpha) a rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau premium, classic plus, nuvos a holl aelodau eraill alpha. Bydd cynnydd i gyfraniadau gweithwyr yn berthnasol o 1 Ebrill 2013. Mae buddion yn classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 y cyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â phensiwn cychwynnol o dair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddion premium yn cronni ar gyfradd o 1/60 yr enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob diben, mae classic plus yn gynllun hybrid gyda buddion mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn unol â classic a'r buddion ar gyfer gwasanaeth o Hydref 2002 ymlaen wedi'u cyfrifo yn yr un modd ag yn premium. Yn nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth yn y cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff 2.3% o enillion pensiynadwy'r aelod yn y flwyddyn honno eu credydu i'w gyfrif pensiwn enilledig, a chodir cyfradd y pensiwn cronedig yn unol â'r Ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion yn alpha yn adeiladu mewn modd tebyg i nuvos, ac eithrio mai'r

gyfradd gronni yw 2.32%.  Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y cyfyngiadau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliad yw’r cyfrif pensiwn partneriaeth.  Mae’r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% hyd at 30 Medi 2015 ac 8% a 14.75% o 1 Hydref 2015 (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) mewn pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr.  Nid oes rhaid i’r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn cyfateb y cyfraniad hwnnw hyd at uchafswm o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr).  Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o’r cyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5% o’r cyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015  i dalu am gost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol yn sgil iechyd gwael).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw’r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl ei dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn syth ar ôl peidio â bod yn aelod o’r cynllun os ydynt eisoes wedi cyrraedd oedran pensiynadwy neu’n mynd y tu hwnt iddo.  Yr oedran pensiwn ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus yw 60 oed, 65 oed ar gyfer aelodau nuvos, a’r oedran uwch sef 65 neu Oedran Pensiwn Gwladol ar gyfer aelodau alpha.  (Mae’r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu alpha – fel bo’n briodol.  Lle mae gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond noder y gall rhan o’r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol).

Gellir cael rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

Gwerthoedd Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf a aseswyd gan actiwari o fuddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol.  Y buddion y rhoddwyd gwerth arnynt yw buddion yr aelod a gronnwyd ac unrhyw bensiwn priod amodol sy’n daladwy o’r cynllun.  Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo’r buddion a gronnwyd yn eu cyn gynllun.  Mae’r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â’r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn yn sgil ei aelodaeth lwyr yn y cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn swydd uwch yn unig y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae’r ffigurau’n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae’r unigolyn wedi’i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.  Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod yn sgil prynu buddion pensiwn ychwanegol ganddo gyda’i arian ei hun.  Caiff CETV ei gyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posibl i fuddion o ganlyniad i’r Dreth Lwfans Oes, a all fod yn ddyledus pan gaiff buddion pensiwn eu hawlio.

Cynnydd gwirioneddol  mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr.  Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig yn sgil chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiant y farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Iawndal am golli swydd

Ni wnaeth unrhyw aelod o staff adael o dan Gynllun Ymadael Gwirfoddol neu o dan delerau Ymddeol yn Gynnar Gorfodol, Hyblyg neu Gymeradwy.

**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

7 Gorffennaf 2016

## 2.3 Adroddiad atebolrwydd ac archwilio

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Estyn: Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Estyn: Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016, dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisïau cyfrifo a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gyflogau y disgrifiwyd yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

### Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM, a wneir yn ôl y gofynion hynny ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, tystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Cyngor Adrodd Ariannol.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, p'un a ydynt wedi'u hachosi gan wall neu dwyll. Mae hyn yn cynnwys asesu:

- a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol ar gyfer amgylchiadau Estyn ac wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol;
- rhesymolrwydd amcangyfrifon cyfrifo sylweddol a wnaed gan Estyn; a'r
- modd y cyflwynwyd y datganiadau ariannol yn gyffredinol.

Hefyd, mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal, rwy'n darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn canfod unrhyw anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth sydd i'w gweld yn sylweddol anghywir ar sail, neu'n sylweddol anghyson â, y wybodaeth a gesglais wrth gyflawni'r archwiliad. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol ymddangosiadol, rwyf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif ac adroddiad.

## Barn am y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa yn Estyn ar 31 Mawrth 2016 ac o'i ofyniad arian net, alldro net ei adnoddau a chost gweithredu net, am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

## Barn am Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Barn am ystyriaethau eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Ystyriaethau yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r ystyriaethau canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiad ag arweiniad Trysorlys EM;
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cyflogau i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EM ynghylch cyflogau a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
13 Gorffennaf 2016

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
CF11 9LJ

# Adran 3: Datganiadau ariannol

## Cyfrifon Blynyddol Estyn 2015-2016 (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol – IFRS)

### 3.1 Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | | 2015-2016 | | | 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Cyllideb | Alldro Gwirion-eddol | Cyfanswm Alldro Net o'i gymharu â'r Amcan (arbediad)/dros ben | (Ailddatgan-wyd) Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Adnoddau:** | | | | | |
| Costau staff | 3 | 8,250 | 7,768 | (482) | 7,897 |
| Dibrisiant | 6 a 7 | 400 | 106 | (294) | 52 |
| Costau eraill | 4 | 3,014 | 2,801 | (213) | 2,938 |
| **Costau Gweithredu Crynswth** | | **11,664** | **10,675** | **(989)** | **10,887** |
| **Incwm gweithredu** | 5 | **-** | **(2)** | **(2)** | **(1)** |
| **Gwariant Gweithredu Net am y Flwyddyn** | | **11,664** | **10,673** | **(991)** | **10,886** |

Adroddir y gwariant net fel segment unigol yn unol â Chynllun Blynyddol Estyn 2015-2016 (sydd ar gael yn www.estyn.llyw.cymru).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 59 i 69 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## 3.2 Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2016

| | Nodyn | 31 Mawrth 2016 | | 31 Mawrth 2015 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Eiddo, cyfarpar ac offer | 6 | 139 | | 46 | |
| Asedau anniriaethol | 7 | 15 | | - | |
| **Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | **154** | | **46** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 8 | 115 | | 154 | |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 9 | 647 | | 694 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **762** | | **848** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | | **916** | | **894** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 10 | (942) | | (1,267) | |
| Darpariaethau o fewn blwyddyn | 11 | - | | (135) | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(942)** | | **(1,402)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(26)** | | **(508)** |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | 11 | | | - | |
| Darpariaethau: Rhwng dwy a phum mlynedd | 11 | (155) | | - | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | (155) | | **-** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | **(181)** | | **(508)** |
| **Ecwiti Trethdalwyr** | | (181) | | (508) | |
| **Cyfanswm Ecwiti Trethdalwyr** | | | **(181)** | | **(508)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 59 i 69 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifyddu
7 Gorffennaf 2016

## 3.3 Datganiad o lifoedd arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | **Nodyn** | **2015-2016 £000oedd** | **2014-2015 £000oedd** |
|---|---|---|---|
| Cost gweithredu net | | (10,673) | (10,886) |
| **Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:** | | | |
| Dibrisiant | 6 a 7 | 106 | 52 |
| Costau eraill (darpariaeth) | 4 | 20 | 3 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn masnach a symiau eraill sy'n daladwy | 10 | (325) | 84 |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 8 | 39 | 21 |
| **Llai symudiadau nad ydynt yn mynd trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | | | |
| Credydwyr cyfalaf | | - | (12) |
| Defnydd o ddarpariaethau | | - | (6) |
| **All-lif net arian parod o weithgareddau gweithredu** | | **(10,833)** | **(10,744)** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, cyfarpar ac offer | 6 | (192) | (9) |
| Prynu Asedau Anniriaethol | 7 | (22) | - |
| **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(214)** | **(9)** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| **Ariannu net (gan Lywodraeth Cymru)** | | **11,000** | **10,500** |
| **(Gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | 9 | **(47)** | **(253)** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 9 | **694** | **947** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 9 | 647 | 694 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 59 i 69 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## 3.4 Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016

| **Newidiadau i ecwiti trethdalwyr** | **2014-2015 £000oedd** | |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | | (122) |
| Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | (10,854) | |
| Tâl Archwilwyr | (32) | |
| Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig ar gyfer 2014-2015 | (10,886) | |
| | 10,500 | |
| Cyllid net Llywodraeth Cymru | | (386) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | | (508) |
| | **2015-2016 £000oedd** | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | | (508) |
| **Newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2015-2016** | | |
| Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | (10,643) | |
| Tâl Archwilwyr | (30) | |
| Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig ar gyfer 2015-2016 | (10,673) | |
| Cyllid net Llywodraeth Cymru | 11,000 | |
| | | 327 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | | **(181)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 59 i 69 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## 3.5 Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

### 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2015-2016 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi cael eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, mae Estyn wedi dewis y polisi yr oedd yn ei farnu oedd y polisi mwyaf priodol ar gyfer ei amgylchiadau penodol, at ddibenion roi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd gan Estyn ar gyfer 2015-2016 isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio gydag eitemau a ystyrir yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Mewn ymgynghoriad â Thrysorlys EM a Llywodraeth Cymru, cytunodd Estyn ar gyfarwyddyd cyfrifon diwygiedig yn 2011-2012, sy'n parhau i gael ei ddefnyddio.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, ac fe'u haddaswyd i roi cyfrif am ailbrisio asedau sefydlog ac asedau anniriaethol yn ôl eu gwerth teg.

### 1.2 Eiddo, cyfarpar ac offer ac Asedau anniriaethol

Caiff gwariant ei droi'n gyfalaf lle disgwylir i oes ddefnyddiol yr ased a brynwyd ymestyn dros nifer o flynyddoedd a bod cost yr eitem(au) dros £1,000. Dangosir asedau sefydlog yn ôl eu cost llai lwfans ar gyfer dibrisiant (gweler nodyn 1.3 isod). Ym marn Estyn, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth net hanesyddol yr asedau ar bapur a'u gwerth teg.

### 1.3 Dibrisiant

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau sefydlog trwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Codir dibrisiant blwyddyn gyfan ym mlwyddyn prynu ased. Mae eu hoes fel a ganlyn:

- Offer TG — 3-5 mlynedd
- Dodrefn a Gosodiadau — 5 mlynedd
- Offer Swyddfa — 5 mlynedd
- Systemau TG — 5 mlynedd
- Asedau Anniriaethol — 3 blynedd

Lle'r amherir ar ased sefydlog diriaethol, codir cost yr amhariad net ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y digwyddodd.

### 1.4 Darpariaethau

Caiff darpariaethau eu cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau sy'n debygol neu'n sicr o godi ond nad yw'r swm neu'r dyddiadau y byddant yn codi yn sicr. Caiff

darpariaethau eu creu neu eu cynyddu trwy godi tâl ar wariant refeniw yn ystod y flwyddyn y cawsant eu creu. Pan eir i'r gwariant yn wirioneddol, codir tâl yn uniongyrchol ar y ddarpariaeth. Caiff y darpariaethau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn eu hystyried yn rhai byrdymor ac maent yn destun adolygiad blynyddol.

### 1.5 Incwm gweithredu

Incwm gweithredu yw incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Estyn. Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarparwyd ac incwm amrywiol arall. Mae Trysorlys EM wedi cyhoeddi cyfarwyddeb derbynebau sy'n caniatáu i Estyn gadw unrhyw gyfryw dderbynebau.

### 1.6 Costau staff a chostau eraill

Dadansoddir y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr rhwng Costau Staff a Chostau eraill yr aed iddynt wrth ymgymryd â diben Estyn. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi un gyllideb i Estyn ar gyfer gwariant Refeniw a chyllideb ar wahân ar gyfer Dibrisiant. Mae gan Estyn yr hawl i ddyrannu ei gyllideb refeniw yn unol â'i ofynion gweithredol. Er mwyn tryloywder, adroddir ar 'Gostau eraill' yn Nodyn 4 yn erbyn isgyfansymiau ar gyfer gwariant Gweinyddol a gwariant Rhaglenni.

### 1.7 Treth ar Werth

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau Estyn y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw'r dreth allosod yn berthnasol, ac nid yw treth fewnbwn ar bryniannau yn adferadwy. Codir cost TAW anadferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei gynnwys yng nghost prynu gyfalafog asedau sefydlog. Lle codir treth allosod neu os yw TAW mewnbwn yn adferadwy, nodir y symiau heb TAW.

### 1.8 Pensiynau

Mae darpariaethau Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gymwys i gyn-weithwyr a gweithwyr presennol, ac fe'u disgrifir yn Nodyn 3. Nid yw elfennau buddion diffiniedig cynlluniau yn cael eu hariannu, ac maent yn anghyfrannol ac eithrio mewn perthynas â buddion dibynyddion. Mae Estyn yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y bydd yn elwa o wasanaethau gweithwyr trwy dalu i Brif Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnol. Codir tâl ar y PCSPS am y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol. O ran elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynlluniau, mae Estyn yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

### 1.9 Costau ymadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Estyn dalu cost ychwanegol buddion sydd ar ben buddion arferol y PCSPS mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Estyn yn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn pan fo'r rhwymedigaeth yn codi. Nid oedd unrhyw ymadawiadau cynnar yn 2015-2016.

### 1.10 Prydlesi gweithredu

Codir taliadau rhentu prydlesi gweithredu ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

### 1.11 Arian Parod a Symiau Cyfwerth ag Arian Parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys dim ond y balans a gedwir yng nghyfrifon banc Estyn.

### 1.12 Cysyniad Busnes Gweithredol

Disgwylir i Estyn barhau i fodoli am gryn amser eto a bydd yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fodloni pob un o'i rwymedigaethau cyfredol pan fyddant yn aeddfedu yn y flwyddyn ariannol 2016-2017. Yn unol â hynny, mae wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail 'busnes gweithredol' ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

## 2 Cysoni alldro adnoddau net yn ôl gofyniad arian parod net yn erbyn cyllid cymeradwy Llywodraeth Cymru

| | Nodyn | Cyllideb 2015-2016 | Alldro 2015-2016 | Alldro o gymharu â'r amcan (arbediad) / dros ben | 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000 oedd |
| **Alldro Adnoddau** | | 11,264 | 10,673 | (591) | 10,886 |
| **Alldro Cyfalaf** | 6 a 7 | 281 | 214 | (67) | 21 |
| **Croniadau i addasiadau arian parod:** | | | | | |
| **Addasiadau i ddileu eitemau nad ydynt yn arian parod:** | | | | | |
| Dibrisiant | 6 a 7 | (400) | (106) | 294 | (52) |
| Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol | 11 | - | (20) | (20) | (3) |
| **Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:** | | | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau sy'n dderbyniadwy | 8 | - | (39) | (39) | (21) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau sy'n daladwy | 10 | - | 325 | 325 | (84) |
| Defnyddio darpariaethau | 11 | - | - | - | 6 |
| **Gofyniad arian parod net** | | **11,145** | **11,047** | **(98)** | **10,753** |

## 3 Mae costau staff yn cynnwys:

| | Cyfanswm 2015-2016 £000oedd | Staff wedi'u cyflogi'n barhaol £000oedd | Eraill £000oedd | 2014-2015 (Ailddatganwyd) £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 4,901 | 4,901 | | 4,844 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 469 | 469 | | 472 |
| Costau pensiwn eraill | 1,069 | 1,069 | | 1,016 |
| **Cyfanswm costau net** | 6,439 | 6,439 | | 6,332 |
| Ynghyd â: | | | | |
| Secondeion i mewn | 744 | - | 744 | 702 |
| Secondeion allan | -[11] | - | - | (16) |
| Staff asiantaeth | 214 | - | 214 | 272 |
| Contract Cyfnod Penodedig | 350 | - | 350 | 351 |
| Costau cyfarwyddwyr anweithredol* | 20 | - | 20 | 18[12] |
| Costau ymadael yn gynnar – yn y flwyddyn | 1 | - | 1 | 238 |
| **Cyfanswm** | **7,768** | **6,439** | **1,329** | **7,897** |

* Manylion unigolion yn y tabl isod

| Taliadau i Gyfarwyddwr Anweithredol ar gyfer 2014-2015 a 2015-2016 | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **2015-2016 Cyfanswm £000oedd** | **2014-2015 Cyfanswm £000oedd** |
| H Edwards | 3 | 9 |
| J Fabian | 6 | 1 |
| A Thomas | 5 | 4 |
| R Tomos | 6 | 4 |
| **Cyfanswm** | **20** | **18** |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "alpha" yn gynlluniau buddion diffiniedig aml-gyflogwr nad ydynt yn cael eu hariannu ond nid yw Estyn yn gallu nodi'i gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Fe wnaeth actiwari'r cynllun brisio'r cynllun ar 31 Mawrth 2012. Gellir cael manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil yma.

Ar gyfer 2015-2016, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £1.069m yn daladwy i'r PCSPS (2014-2015: £1.016m) ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 20.0% i 24.5% o dâl pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2015-2016 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

[11] Adfer costau staff wedi'u secondio o Estyn i Lywodraeth Cymru.

[12] Cyfrifon wedi'u hailddatgan i gynnwys costau Cyfarwyddwyr Anweithredol yn Costau staff (Nodyn 3) ac nid costau heb fod yn staff (Nodyn 4) fel yr adroddwyd yn flaenorol ar gyfer 2014-2015.

## 4 Costau eraill

| | 2015-2016 £000oedd | 2014-2015 (Ailddatganwyd) £000oedd |
|---|---|---|
| Rhentu dan brydlesi gweithredu: adeiladau | **131** | **132** |
| Costau adeiladau eraill | **250** | **184** |
| TG a thelathrebu | **617** | **616** |
| Gwasanaethau canolog Llywodraeth Cymru | **13** | **19** |
| Teithio a chynhaliaeth | **587** | **626** |
| Tâl yr archwilydd – archwilio'r cyfrifon | **30** | **32** |
| Gwariant gweinyddol cyffredinol | **253** | **248**[13] |
| **Eitemau heblaw am arian parod:** | | |
| - newid yn y ddarpariaeth ar gyfer adeiladau'n adfeilio | **20** | **3** |
| - dibrisiant asedau diriaethol | **99** | **52** |
| - dibrisiant asedau anniriaethol | **7** | **-** |
| | **2,007** | **1,912** |
| Llai: Incwm gweithredu (Nodyn 5) | **(2)** | **(1)** |
| **Isgyfanswm: Costau gweinyddol net** | **2,005** | **1,911** |
| Arolygiadau addysg ôl-16 a chostau cysylltiedig | **8** | **21** |
| Arolygiadau ysgolion a chostau cysylltiedig | **672** | **750** |
| Costau cyffredinol yn ymwneud ag arolygu | **211** | **278** |
| Costau'r cylch gwaith | **9** | **29** |
| **Isgyfanswm: Costau rhaglenni** | **900** | **1,078** |
| **Cyfanswm y costau eraill** | **2,905** | **2,989** |
| **Cyfanswm y Costau eraill heb Incwm a dibrisiant** | **2,801** | **2,938** |

## 5 Incwm

| | 2015-2016 £000oedd | 2014-2015 £000oedd |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| - ffioedd cofrestru | (2) | (1) |
| **Cyfanswm** | **(2)** | **(1)** |

Gan fod swm yr incwm a dderbynnir yn fychan ac y gall amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, caiff ei eithrio o ffigurau'r Amcangyfrif yn y Datganiad o wariant net cynhwysfawr.

[13] Ffigur wedi'i ailddatgan o hynny a adroddwyd yn wreiddiol yn 2014-2015 i hepgor costau Cyfarwyddwyr Anweithredol sydd bellach yn cael eu dangos ar wahân yn Costau staff yn Nodyn 3.

## 6 Eiddo, cyfarpar ac offer

| | Systemau TG £000oedd | Offer TG £000oedd | Dodrefn a gosodiadau £000oedd | Offer swyddfa £000oedd | Cyfanswm £000 oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | 196 | 692 | 246 | 90 | 1,224 |
| Ychwanegiadau | - | 192[14] | - | - | 192 |
| Gwarediadau | - | (135) | (3) | (81) | (219) |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **196** | **749** | **243** | **9** | **1,197** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | 196 | 652 | 240 | 90 | 1,178 |
| Codwyd yn y flwyddyn | - | 98 | 1 | - | 99 |
| Gwarediadau | - | (135) | (3) | (81) | (219) |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **196** | **615** | **238** | **9** | **1,058** |
| **Swm i'w gario Ar 31 Mawrth 2016** | **-** | **134** | **5** | **-** | **139** |
| Ar 1 Ebrill 2015 | **-** | **40** | **6** | **-** | **46** |

[14] Prynu ffonau symudol a gliniaduron

## 7 Asedau anniriaethol

| | Meddalwedd<br>£000oedd | DVD<br>£000oedd | Cyfanswm<br>£000oedd |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2015** | **11** | **109** | **120** |
| **Ychwanegiadau** | - | 22[15] | 22 |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **11** | **131** | **142** |
| **Dibrisiant** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2015** | **11** | **109** | **120** |
| **Codwyd yn y flwyddyn** | - | 7 | 7 |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **11** | **116** | **127** |
| **Swm i'w gario** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **-** | **15** | **15** |
| **Ar 1 Ebrill 2015** | **-** | **-** | **-** |

[15] Cynhyrchu DVDau hyfforddiant arolygu

## 8 Offerynnau ariannol

Er bod Estyn yn derbyn ei arian trwy Lywodraeth Cymru ac nid trwy'r amcangyfrifon cyflenwi arferol, mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau nad ydynt yn rhai ariannol yn unol â'u gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig, ac felly mae Estyn yn agored i ychydig iawn o berygl o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad. Nid yw Estyn yn dal offerynnau ariannol sy'n gymhleth neu sy'n chwarae rôl sylweddol tymor canolig i dymor hir ym mhroffil risg ariannol Estyn.

### Risg hylifedd

Mae Estyn yn dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ofynion adnoddau ac nid yw felly'n agored i risgiau hylifedd sylweddol.

### Risg o ran cyfradd llog neu arian tramor

Er bod y balans banc y mae Estyn yn ei ddal yn berthnasol, bach iawn yw'r risg sy'n gysylltiedig â'r balans gan y'i cedwir o fewn set cyfrifon banc Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Mae'r holl adneuon perthnasol a'r holl asedau a rhwymedigaethau perthnasol yn cael eu henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfradd llog neu risg o ran arian tramor.

## 9 Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy

### 9a Dadansoddiad yn ôl math

| | Ar 31 Mawrth 2016 £000oedd | Ar 31 Mawrth 2015 £000oedd |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau derbyniadwy eraill | 27 | 46 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 88 | 108 |
| **Cyfanswm** | 115 | 154 |

### 9b Balansau Rhyng-Lywodraeth

| | Ar 31 Mawrth 2016 £000oedd | Ar 31 Mawrth 2015 £000oedd |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Balansau â chyrff eraill llywodraeth ganolog | 26 | 46 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 89 | 108 |
| **Cyfanswm** | 115 | 154 |

## 10 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | 2016 £000oedd | 2015 £000oedd |
|---|---|---|
| Balans | 694 | 947 |
| Newid net mewn balansau arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | (47) | (253) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **647** | **694** |

Mae Estyn yn defnyddio Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ac yn gweithredu un cyfrif banc. Mae'r cyfrif NatWest yn darparu gwasanaeth talu BACS, casglu incwm BACS a chyfleusterau bancio lleol. Roedd y balansau canlynol ar gael ar 31 Mawrth 2015 a 31 Mawrth 2016:

| | Ar 31 Mawrth 2016 £000oedd | Ar 31 Mawrth 2015 £000oedd |
|---|---|---|
| Balansau yn Citi Bank | -16 | 694 |
| Balansau yn NatWest | 647 | - |
| | 647 | 694 |

## 11 Masnach a symiau eraill sy'n daladwy

### 11a Dadansoddiad yn ôl math

| | Ar 31 Mawrth 2016 £000oedd | Ar 31 Mawrth 2015 £000oedd |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | |
| Symiau taladwy masnach | 122 | 190 |
| Cyllid y gyflogres | 229 | 220 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 591 | 857 |
| | 942 | 1,267 |

### 11b Balansau Rhyng-Lywodraeth

| | Ar 31 Mawrth 2016 £000oedd | Ar 31 Mawrth 2015 £000oedd |
|---|---|---|
| Balansau â chyrff eraill llywodraeth ganolog | 39 | 53 |
| Balansau ag awdurdodau lleol | 254 | 178 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 649 | 1,036 |
| **Cyfanswm** | **942** | **1,267** |

[16] Nid oes cyfrif Citi Bank gan Estyn mwyach yn dilyn ad-drefnu cyfrifon gan Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn ystod 2015-2016.

## 12 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

**Adnewyddu adeiladau:** Rhwymedigaethau sy'n codi ar gyfer adfer eiddo swyddfa wedi'i brydlesu i'w gyflwr gwreiddiol adeg terfynu prydles

| **Darpariaethau** | **Adnewyddu adeiladau**<br>**£000oedd** | **Cyfanswm**<br>**£000oedd** |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2015 | | |
| - O fewn blwyddyn | **135** | **135** |
| - Rhwng dwy a phum mlynedd | **-** | **-** |
| - Ar ôl pum mlynedd | **-** | **-** |
| Cynnydd/(Gostyngiad) yn y ddarpariaeth | **20**[17] | **20** |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | **-** | **-** |
| Darpariaeth sy'n weddill: | **155** | **155** |
| - O fewn blwyddyn | **-** | **-** |
| - Rhwng dwy a phum mlynedd | **155** | **155** |
| - Ar ôl pum mlynedd | **-** | **-** |
| Cyfanswm y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2016 | **155** | **155** |

## 13 Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oes unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2016.

## 14 Ymrwymiadau o dan brydlesi

### Prydlesi gweithredu

| | **2016**<br>**£000oedd**<br>**Tir ac Adeiladau** | **2015**<br>**£000oedd**<br>**Tir ac Adeiladau** |
|---|---|---|
| Ar 31 Mawrth, roedd Estyn yn ymrwymedig i wneud y taliadau canlynol yn ystod blynyddoedd y dyfodol mewn perthynas â phrydlesi gweithredu yn dod i ben: | | |
| - o fewn blwyddyn | **96** | **86** |
| - rhwng dwy a phum mlynedd[18] | **532** | **-** |
| - ar ôl pum mlynedd | **-** | **-** |
| | **628** | **86** |

[17] Cynnydd mewn darpariaeth yn dilyn dyfynbris wedi'i ddiweddaru gan y Syrfëwr.
[18] Prydles wedi'i hadnewyddu ar gyfer adeiladau swyddfa.

Mae IFRS16 a gyhoeddwyd yn Ionawr 2016 ond na fydd yn dod i rym hyd nes 1 Ionawr 2019, yn mynnu bod yr holl brydlesi â chyfnod prydles ddim mwy na 12 mis yn cael eu cydnabod fel asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol. Ni wyddys eto a fydd y safon hon yn cael ei mabwysiadu yn y FreM ond pe bai wedi'i mabwysiadu ar gyfer 2015-16, byddai cynnydd o £627,000 wedi bod mewn asedau a rhwymedigaethau.

## 15 Ymrwymiadau eraill

Nid yw Estyn wedi cytuno ar unrhyw gontractau na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesi gweithredu) ar 31 Mawrth 2016 (nid oedd unrhyw gontractau na ellir eu canslo ar 31 Mawrth 2015).

## 16 Rhwymedigaethau amodol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar ddiwedd 2015-2016 (nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2015).

## 17 Trafodion â phartïon cysylltiedig

Bu nifer fach o drafodion perthnasol yn ystod y flwyddyn rhwng Estyn a Llywodraeth Cymru a sefydliad canlynol y Llywodraeth yr ystyrir ei fod yn barti cysylltiedig:

- Swyddfa Archwilio Cymru

Nid ymgymerodd unrhyw aelod o'r bwrdd, rheolwr allweddol na phartïon cysylltiedig eraill ag unrhyw drafodion perthnasol gydag Estyn yn ystod y flwyddyn.

## 17 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol sy'n effeithio ar ddeall y datganiadau ariannol hyn.

## Atodiad 1: Rhestr o acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

| | |
|---|---|
| AARh | Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio |
| ACALI | Arolygydd cyswllt awdurdod lleol |
| AdAS | Yr Adran Addysg a Sgiliau |
| AEM | Arolygydd Ei Mawrhydi |
| AGGCC | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| AY | Arolygydd Ychwanegol |
| BACS | System Glirio Awtomataidd y Banciau |
| CCAC | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru |
| CCAUC | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| CCS | Cynllun Cydraddoldeb Strategol |
| CETV | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod |
| CiO | Cymraeg i Oedolion |
| DDD | Deddf Diogelu Data |
| DOG | Dysgu Oedolion yn y Gymuned |
| DP | Dangosydd Perfformiad |
| DYYG | Dysgu yn y gwaith |
| ETI | Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant (Gogledd Iwerddon) |
| EWC | Cyngor Lles Addysg |
| FReM | Llawlyfr Adrodd Ariannol |
| FfAC | Fframwaith Arolygu Cyffredin |
| GBS | System Bancio'r Llywodraeth |
| HAGA | Hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon |
| IFRS | Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol |
| NTFW | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |
| Ofsted | Swyddfa Safonau mewn Addysg (Lloegr) |
| PAEM | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| PCSPS | Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil |
| RhG | Rhyddid Gwybodaeth |
| SAC | Swyddfa Archwilio Cymru |
| SICI | Cynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau |
| TAW | Treth ar Werth |
| TTI | Timau Troseddau Ieuenctid |
| QAA | Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch |
| UCD | Uned Cyfeirio Disgyblion |